

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel a fideo- Fay Bowen
gynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 14 Medi 2023 0300 200 6565
Amser: 09.15 SeneddCCGG@senedd.cymru

(Rhag-gyfarfod preifat)

(09.00–09.15)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.15)

2 Papurau i'w nodi

(09.15–10.00)

2.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Prif Weinidog – penodiadau Gweinidogol

(Tudalennau 1 – 2)

2.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru: Hysbysiad o derfynau amser ar gyfer archwilio

(Tudalennau 3 – 7)

2.3 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol – adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch adolygiad o Gomisiynwyr Cymru (Saesneg yn unig)

(Tudalennau 8 – 10)

2.4 Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

(Tudalennau 11 – 12)



- 2.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch adolygiad o Gomisiynwyr Cymru**
(Tudalennau 13 – 25)
- 2.6 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
(Tudalennau 26 – 32)
- 2.7 Ymateb gan Gofal Iechyd Digidol Cymru i'r adroddiad ar y cyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, sef 'Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru'**
(Tudalennau 33 – 60)
- 2.8 Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad ar y cyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, sef 'Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru'**
(Tudalennau 61 – 76)
- 2.9 Llythyr gan Fiona Stewart – Rheolwr Gyfarwyddwr Gŵyl y Dyn Gwyrdd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (Saesneg yn unig)**
(Tudalennau 77 – 86)
- 2.10 Llythyr gan Brif Weithredwr Maes Awyr Caerdydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
(Tudalennau 87 – 90)
- 2.11 Ymateb sefydliadol Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru**
(Tudalennau 91 – 101)
- 2.12 Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2020–21**
(Tudalennau 102 – 113)

3 Gwneud y mwyaf o arian yr UE – sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru:

(10.00–11.15)

(Tudalennau 114 – 139)

Peter Ryland – Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Hugh Morgan – Pennaeth yr Is-adran Taliadau Gwledig

Briff Ymchwil

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw.

(11.15)

Egwyl

(11.15–11.30)

5 Trafod y dystiolaeth a gafwyd.

(11.30–11.50)

6 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

(11.50–12.15)

(Tudalennau 140 – 221)

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, Awst 2023

Llywodraeth Cymru – ffurflen ymateb sefydliadol i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladu yng Nghymru
Dogfennau atodol:

'Cracks in the Foundations' – Building Safety in Wales Report of the Auditor General for Wales, August 2023

Briefing Note_Cracks in the Foundations

Mark Drakeford AS

Y Prif Weinidog

6 Gorffennaf 2023

Penodiadau gweinidogol

Annwyl Brif Weinidog,

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, a hynny ar gyfer swydd Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd. Nid oedd hon yn un o'r penodiadau cyhoeddus a restrir yn y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Fodd bynnag, cynhaliwyd gwrandawriad cyn penodi yn dilyn ymrwymiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ystod gwaith craffu Cyfnod 2 a 3 o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Roeddem yn gwerthfawrogi ymrwymiadau'r Gweinidog a'r cyfle i ni fod yn rhan o'r broses benodi hon.

Yn fwy cyffredinol, ers dechrau'r Senedd hon rydym wedi tanlinellu'n gyson ein pryderon ynghylch rôl gyfyngedig pwyllgorau'r Senedd yn y broses penodiadau cyhoeddus, a chyfyngiadau'r gwrandawriadau cyn penodi yn benodol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn ein [gohebiaeth yn ddiweddar â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus](#).

Rydym yn ysgrifennu i ofyn am ragor o wybodaeth am benodiadau gweinidogol. Roedd hwn yn benodiad gweinidogol nad yw pwyllgorau'r Senedd fel arfer yn rhan ohono. Credwn fod ein rhan ni yn y broses benodi wedi helpu i sicrhau bod rhagor o wybodaeth am y broses recriwtio ar gael i'r cyhoedd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y rôl hon oherwydd y penderfyniad i benodi'n uniongyrchol ar ôl i'r broses recriwtio cyhoeddus fethu.

O ganlyniad, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd mewn perthynas â phenodiadau gweinidogol. Byddem felly, yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd ar gyfer penodiadau o'r fath. A fyddech cystal â rhoi cyfanswm y penodiadau gweinidogol a wnaed, gan nodi'r canlynol:

- y portffolio gweinidogol;



PAPA(6)-12-23 -PTN1

- a gynhaliwyd proses recriwtio agored mewn perthynas â'r penodiad?
- a oedd y broses recriwtio agored yn llwyddiannus (os yw'n berthnasol)?
- a oedd y penodiad yn benodiad uniongyrchol?
- y rheswm pam roedd y penodiad yn benodiad uniongyrchol (os yw'n berthnasol).

A allwch chi hefyd roi manylion yr holl swyddi y gwnaed penodiad uniongyrchol iddynt, ni waeth pam y gwnaed y penodiad uniongyrchol. Hoffem y data ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mark Isherwood, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ystyried ymchwiliad presennol y Pwyllgor hwnnw i benodiadau cyhoeddus.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 14 Medi 2023.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Mark Isherwood, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

17 Gorffennaf 2023

Annwyl Adrian a Kate,

Hysbysiad o derfynau amser ar gyfer archwilio

Ysgrifennaf yn dilyn adroddiad y Pwyllgor ar ei waith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Tachwedd 2022. Byddwch yn cofio inni wneud yr argymhelliad a ganlyn yn sgil ein hystyriaeth o'r oedi sylweddol o ran gosod Cyfrifon Cyfunol 2020-21 Llywodraeth Cymru:

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os na all gwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis.

Gwnaethom edrych eto ar gwmpas yr argymhelliad hwn yn ein cyfarfod ar 21 Mehefin gan ein bod wedi bwriadu ymestyn yr argymhelliad i gynnwys archwilio cyrff eraill. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith archwilio mewn dros 800 o gyrff, a nodwn fod statws cyrff yn y gwahanol sectorau, a'r terfynau amser ar gyfer eu harchwilio, yn amrywio.

Wedi ystyried y mater yn ofalus, cytunwyd i ofyn inni gael ein hysbysu pan na fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyrff canlynol o fewn y terfyn amser statudol sy'n gymwys iddynt (neu erbyn diwedd mis Tachwedd lle nad yw terfyn amser statudol yn berthnasol):

- Cyrff a ariennir yn uniongyrchol;
- Llywodraeth Cymru a chyfrifon cysylltiedig;
- Awdurdod Cyllid Cymru;
- Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; a
- Chyrff y GIG.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol, rydym wedi rhestru yn yr atodiad y cyrff hynny a fydd yn ddarostyngedig i'r trefniant adrodd hwn a'u dyddiadau cau priodol ar gyfer cyflwyno adroddiad.



Gobeithio bod hyn yn rhoi eglurder ynghylch cwmpas ein hargymhelliad a'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno adroddiad mewn perthynas â chyfrifon hwyr cyrff a archwilir.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Peredur Owen Griffiths', written in a cursive style.

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid



Corff a archwilir	Terfyn amser
Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd
Comisiwn y Senedd	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd
Llywodraeth Cymru a chyfrifon cysylltiedig	
Cronfa Gyfunol Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd
Cyfrif Adnoddau Llywodraeth Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd
Cyfrif Ardrethi Annomestig Cymru	Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd)
Cyfrifon cryno'r GIG	Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd)
Awdurdod Cyllid Cymru	
Awdurdod Cyllid Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst



Datganiad Trethi Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst
Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	
Cyngor Celfyddydau Cymru	Terfyn amser archwilio penodedig - 31 Ionawr
Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais)	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd)
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Terfyn amser archwilio penodedig - 31 Ionawr
Amgueddfa Cymru	Terfyn amser archwilio penodedig - 31 Ionawr
Cyfoeth Naturiol Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst
Cymwysterau Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst
Gofal Cymdeithasol Cymru	Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst
Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru)	Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd)



Y GIG	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	<p>1. Terfynau amser gweinyddol y cytunir arnynt yn flynyddol gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer archwilio cyfrifon.</p> <p>2. Terfyn amser blynyddol diweddarach ar gyfer adroddiad blynyddol llawn yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.</p>
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda	
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	
Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)	
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	



To: Jane Hutt

Minister for
Social Justice

Via email only

31 July 2023

Dear Jane,

I write in support of the recommendations made by the Senedd Public Accounts and Public Administration Committee in their recent inquiry report entitled *Review of the Welsh Commissioners*.

Several of these recommendations speak to issues we have raised with you and Welsh Government colleagues previously and some were raised in our submission to the aforementioned Review. These include:

- The restrictions placed on our use of reserves due to our inclusion within the accounting boundary; and associated risks to our independence. The Committee recommends that the Welsh Government reviews the impact of the changes after they have been in operation for two years and provides an update to the Committee by September 2024;
- The timeliness of confirming funding allocations for Commissioners;
- The need for a post-legislative review of the legislation governing all Commissioners including a review of the funding allocated to them. Our own review of Welsh Government in 2021 noted that:

"The powers of the current legislation will require review and revision ... A further flaw in the legislation can also be corrected by a comprehensive review. The Government, as the body



Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr
Harbwr/Harbourside Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

post@comisiynyddplant.cymru

post@childrenscommissioner.wales

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

that appoints and funds the Commissioner's office, is able to effectively block and delay the legitimate attempts of the Commissioner to examine their conduct and this cannot be right or acceptable in a democratic society. Further, this arrangement does not conform to the international standard of the Paris Principles and it is therefore extremely disappointing that, during the course of this Review, the Government rejected the calls of the Senedd Children, Young People and Education (CYPE) Committee in their Children's Rights in Wales report to transfer the appointment and accountability of the office to the Senedd."

- Whether new legislation may impact upon the remit of Welsh Commissioners, ensuring there are adequate resources to incorporate extensions to their roles and responsibilities.

These are long-standing concerns and, as such, I hope that the Welsh Government will give full consideration and respond positively to the Committee's recommendations.

I would be happy to further discuss these issues with you

Yours sincerely,



Rocio

Rocio Cifuentes MBE

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



cc. Mark Isherwood MS, Chair, Public Accounts and
Public Administration Committee

Jo Stevens, Head of Children's Branch, Welsh
Government





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Trwy e-bost

24 o Awst 2023

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf i fynegi fy niolch i chi a'r Pwyllgor am eich adroddiad diweddar ar yr 'Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith cynhwysfawr a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd. Mae eich archwiliad o drefniadau adnoddau Comisiynwyr yn ddefnyddiol ac yn amserol.

Yn benodol, rwy'n croesawu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad sy'n arbennig o berthnasol i'm rôl ac sydd wedi'u cynllunio i helpu i wella'r broses o bennu ac esblygiad ein cyllidebau blynyddol:

- Argymhelliad 4 – Mae croeso i'ch galwad ar Weinidogion Cymru i gadarnhau'r dyraniadau cyllid ar gyfer Comisiynwyr mewn ffordd gyson a diffiniedig i roi digon o amser i ni gynllunio ein cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd dilynol.
- Argymhelliad 14 – Edrychaf ymlaen at y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol am yr adolygiad gan swyddogion o gwmpas gwaith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Argymhelliad 16 - Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith bosibl deddfwriaeth newydd ar gylch gwaith Comisiynwyr Cymru. Mae angen sicrhau bod gennym adnoddau digonol i ymestyn ein rolau a'n cyfrifoldebau.

Wrth i mi baratoi i osod y blaenoriaethau ar gyfer fy nhymor, eleni yn unig, rwyf wedi anfon arwydd o fy anghenion cyllidebol i Lywodraeth Cymru cyn toriad yr haf a byddaf yn anfon fy amcangyfrif llawn erbyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref. Rwy'n rhagweld y bydd canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor yn cael eu hystyried yn ystod y trafodaethau cyllidebol ac wrth bennu fy nghyllideb ar gyfer 2024-25. O'm hymgysylltiad diweddar ag arweinwyr cyrff cyhoeddus Cymru dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'n amlwg eu bod yn croesawu'r cymorth a'r cyngor arbenigol a ddarparwyd gan fy nhîm. Er fy mod yn cydnabod yr amgylchiadau cyllidebol hynod o galed sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn y gyllideb sydd i ddod, rwy'n gobeithio y gallaf gadw fy nhîm presennol ac y bydd y gwerth a ddarperir gan fy swyddfa yn cael ei gydnabod yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales



Dymunaf aildatgan fy ymrwymiad i weithio ar y cyd â Chomisiynwyr eraill. Rydym eisoes yn cydweithio'n agos, ac rwy'n rhagweld y gallwn adeiladu ar hyn ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Nodaf a chroesawaf fwriad y Pwyllgor i ddychwelyd at graffu pellach ar waith y Comisiynwyr fel rhan o'i waith craffu ar y cyfrifon blynyddol. Edrychaf ymlaen at weithio gyda swyddogion ar hyn maes o law.

Unwaith eto, diolch i chi am anfon copi o'ch adroddiad ac am yr argymhellion cefnogol ataf.

Yr eiddoch yn gywir,



Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Tramshed Tech, Heol Pendyris

Caerdydd, CF11 6BH

cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Tramshed Tech, Pendyris Street

Cardiff, CF11 6BH

contactus@futuregenerations.wales

futuregenerations.wales

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Awst 2023

Annwyl Mark,

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS A GWEINYDDIAETH
GYHOEDDUS
ADOLYGIAD O GOMISIYNWYR CYMRU
YMATEB I'R ADRODDIAD**

Mae'n bleser gennyf amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod a fydd yn cael ei osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet, hoffwn ddiolch ichi a'r Pwyllgor am y modd gofalus ac ystyriol y gwnaethoch chi gynnal yr ymchwiliad a llunio'r adroddiad.

Wedi'r ymateb hwn, bydd y Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol perthnasol yn hapus i rannu unrhyw wybodaeth, eglurhad neu fanylion pellach, os oes angen.

Yn gywir

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb i Adroddiad Senedd Cymru Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar yr Adolygiad o Gomisiynwyr
Cymru, Gorffennaf 2023**

Darparwyd gan: Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dyddiad: Awst 2023

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 16 o argymhellion sydd ynddo. Lle mae ymateb yn ymwneud â mwy nag un argymhelliad, mae'r argymhellion perthnasol wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd.

Mae Argymhellion 1 a 4 wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd er mwyn ymateb.

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth bob blwyddyn i lywio'r broses o baratoi cyllideb y Comisiynwyr. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd wedi cytuno ar yr amserlen y mae'n bwriadu ei mabwysiadu.

Derbyn

Argymhelliad 4

Rydym yn argymhell bod Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r dyraniadau cyllid i Gomisiynwyr yn unol ag amserlen ddiffiniedig, sy'n rhoi digon o amser i Gomisiynwyr gynllunio cyllidebau eu blynyddoedd dilynol yn unol â hynny, a'i bod yn cymryd agwedd gyson wrth wneud hynny.

Derbyn

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ysgrifennu i'r Pwyllgor Busnes er mwyn cytuno ar amserlen ar gyfer cyllideb y flwyddyn ariannol ddilynol cyn toriad yr haf. Fodd bynnag, ni ellir cadarnhau'r dyddiadau pan gaiff y cyllidebau drafft a therfynol eu cyflwyno nes bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dyddiad digwyddiad cyllidol yr hydref. Dim ond ar yr adeg hon, yn hwyr yn nhymor yr hydref, y bydd Gweinidogion yn cael gwybod am union fanylion setliad cyllidebol Cymru ar hyn o bryd.

Mae amseriad y digwyddiadau hyn ers 2017 wedi cael effaith andwyol ar brosesau cynllunio cyllidebol Gweinidogion Cymru. Rydym yn cydnabod ac yn rhannu pryderon y Comisiynwyr mewn perthynas â llunio cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol pan fyddwn yn cael gwybod am fanylion ein setliad cyllidebol terfynol mor hwyr. Mae cyrff cyhoeddus a noddir, awdurdodau lleol, a'n partneriaid yn y trydydd sector yn wynebu heriau tebyg.

O ganlyniad, mae union fanylion ac amseriad dyraniadau cyllid ar gyfer y Comisiynwyr yn dibynnu ar hynt y broses gyllidebu gyffredinol ar gyfer cylch priodol y gyllideb. Fel y nodwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mae Comisiynwyr wedi cael gwahoddiad i gyflwyno amcangyfrifon cynnar i Weinidogion ym mis Awst bob blwyddyn, sy'n gynt na'r dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref. Mae hyn yn golygu y gellir trafod y cyllid posibl sydd ar gael wrth i'r broses o bennu cyllideb fynd rhagddi.

Lle y bo'n bosibl, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni all Gweinidogion ymrwmo i lefelau manwl gywir o gyllid ar gyfer y Comisiynwyr nes y gallant ystyried y dyraniad yng nghyd-destun ehangach cyfanswm y cyllid sydd ar gael iddynt. Fel y nodwyd gan y Prif Weinidog yn ei Ddatganiad ar 9 Awst, roedd ein sefyllfa ariannol yn dilyn Cyllideb Gwanwyn y DU ym mis Mawrth hyd at £900m yn is mewn termau real nag oedd pan osodwyd y gyllideb gan Lywodraeth y DU yn ystod yr adolygiad diwethaf o wariant yn 2021. Mae hyn yn cael effaith ar bob maes cyllideb a pholisi, gan gynnwys Comisiynwyr. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae cyllidebau'r Comisiynwyr wedi aros yn sefydlog neu wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Dylai hyn alluogi'r Comisiynwyr i amcangyfrif eu hincwm a'u gwariant yn seiliedig ar derfynau cyllidebol presennol.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor a'r Comisiynwyr am y broses ar gyfer addasu'r amcangyfrifon a gyflwynir gan y Comisiynwyr.

Derbyn

Yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pob Comisiynydd, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddarparu ei amcangyfrif statudol o incwm a threuliau'r Comisiynydd a staff y Comisiynydd. Mae'n ofynnol i'r Comisiynwyr gyflwyno eu hamcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi (31 Hydref).

Fel Swyddogion Cyfrifyddu, mae disgwyl i Gomisiynwyr gynllunio i ddefnyddio eu hadnoddau ar lwybr fforddiadwy a chynaliadwy, ac o fewn terfynau y cytunwyd arnynt. Mae'r terfynau cyllidebol ar gyfer pob Comisiynydd yn rhoi syniad o'r gyllideb y dylai Comisiynwyr gynllunio yn unol â hi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ar ôl eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, caiff amcangyfrifon y Comisiynwyr eu hadolygu a'u hystyried ochr yn ochr â gofynion cyllido eraill ym mhob rhan o'r gyllideb. Mae Gweinidogion Cymru wedi annog Comisiynwyr i ddarparu eu hamcangyfrifon statudol yn gynharach na'r dyddiad cau statudol er mwyn llywio'r broses gyllidebu.

Caiff dyraniad terfynol y gyllideb ei lywio gan amcangyfrifon y Comisiynwyr a phenderfynir arno yn unol â'r gyllideb gyffredinol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac, yn benodol, i'r Prif Grŵp Gwariant y dyrennir cyllidebau'r Comisiynwyr iddo. Mae hyn yn golygu trafodaethau o fewn Llywodraeth Cymru a thrafodaethau â'r Comisiynwyr neu eu staff, gan arwain at ddyraniad terfynol o'r gyllideb ar gyfer pob Comisiynydd a gyflwynir yng Nghynigion y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol (Cynnig y Gyllideb Flynyddol) y gosodir y ddau gerbron Senedd Cymru. Ni ellir cadarnhau'r gyllideb ar gyfer pob Comisiynydd nes bod y Senedd wedi cymeradwyo'r Gyllideb gyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru o dan y Rheolau Sefydlog perthnasol.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam nad yw'n ymddangos ei bod yn defnyddio'r broses addasu i adolygu amcangyfrifon y Comisiynwyr, ac yn egluro pam nad yw'r amcangyfrifon, o bosibl – fel y'u gosodwyd gerbron y Senedd – yn nodi'r cyllid y cytunwyd arno ar gyfer y Comisiynwyr.

Derbyn

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i bob Comisiynydd baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau'r Comisiynydd a staff y Comisiynydd. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno hwn i Weinidogion Cymru sydd â phŵer i wneud addasiadau sy'n briodol yn eu tyb nhw. Nid yw'r amcangyfrif statudol a ddarperir gan y Comisiynydd yn cadarnhau'r gyllideb a dderbyniodd y Comisiynydd. Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhellion 1 a 4, mater i Weinidogion Cymru yw penderfynu ar y gyllideb a roddir i Gomisiynwyr drwy brosesau'r gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol.

Nid yw Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer i addasu dogfennaeth yr amcangyfrif a ddarperir gan bob Comisiynydd ac felly caiff yr amcangyfrifon hynny a ddarperir gan Gomisiynydd eu gosod gerbron y Senedd fel ag y maent.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio proses addasu fel y'i nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 2 uchod. Caiff amcangyfrifon cychwynnol y Comisiynwyr o incwm a threuliau eu hystyried ochr yn ochr â'r pwysau cyllidebol cyffredinol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach. Caiff y Comisiynwyr eu hysbysu o'u dyraniadau o'r gyllideb ddrafft unwaith bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru wedi cael ei chyhoeddi ac yna byddant yn cael hysbysiad ffurfiol yn nodi dyraniad y gyllideb ar ôl i'r Senedd ei gymeradwyo. Caiff y cyllid y cytunir arno ar gyfer pob Comisiynydd ei nodi'n glir yn y gyllideb a gymeradwyir gan y Senedd. Mae hyn yn debygol o fod yn wahanol i'r amcangyfrif a baratowyd gan y Comisiynydd ac a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd y mae wedi'i wneud gyda'i rhaglen i symud i gylchoedd gwaith Tymor Llywodraethu ar gyfer ei chyrrff hyd braich, ynghyd â wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r ymarfer.

Derbyn

Mae pob Comisiynydd yn hyrwyddo'r bobl neu'r meysydd polisi y maent yn cynrychioli eu buddiannau. Fel y cyfryw, mae Comisiynwyr yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae'n rhaid iddynt gael y rhyddid a'r disgresiwn i ymgymryd â'u dyletswyddau heb ofni y bydd eu gwaith yn cael effaith ar eu cyllid. Mae'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr yn sylfaenol wahanol felly i'r gydberthynas sydd gan Lywodraeth Cymru â chategoriâu eraill o gyrff, megis Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Cyrff Hyd Braich neu is-gwmnïau.

Er gwaethaf annibyniaeth Comisiynwyr o ran eu polisiâu a'r ffordd y maent yn gweithredu, caiff pob un ei ariannu gan gyllid cyhoeddus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Comisiynydd yn Swyddog Cyfrifyddu, yn cael llythyrau Swyddogion Cyfrifyddu ac yn gorfod cwblhau hyfforddiant priodol. Mae Comisiynwyr yn gyfrifol yn bersonol felly am reoli'r cyllid a ddyrennir iddynt. Mae'n rhaid i drefniadau cyfrifon a llywodraethu pob Comisiynydd fod yn destun prosesau archwilio mewnol ac allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rôl y Comisiynwyr wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth sefydlu berthnasol ac, o ganlyniad i annibyniaeth weithredol y Comisiynwyr, nid yw Gweinidogion Cymru yn rhoi 'llythyrau cylch gwaith' iddynt fel y cyfryw. Yn hytrach, mae Gweinidogion yn rhoi llythyr dyrannu grant i bob Comisiynydd sy'n nodi ei gyllid ar gyfer y flwyddyn dan sylw: hefyd, bydd protocol neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith yn esbonio dyletswyddau statudol, trefniadau gweithredol, canllawiau a pholisiâu y mae angen iddynt gydymffurfio â nhw. Yna mae pob Comisiynydd yn gyfrifol am nodi ei flaenoriaethu ei hun a chynllun gwaith dilynol a gaiff ei drafod â Gweinidogion.

Ceir cyngor pellach ar y gydberthynas hon yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Mae Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru yn cael llythyrau cylch gwaith oddi wrth y Gweinidog cyfrifol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrrff hyn bellach yn cael llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth ond, am na ellir gwarantu cyllid y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol berthnasol, bydd Gweinidogion yn dal i gytuno ar lythyrau cyllid blynyddol i bob Corff Hyd Braich ar ôl i'r Senedd gytuno ar Gyllideb Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn gosod amcangyfrifon Comisiynwyr Cymru gerbron y Senedd yn amserol, ac ar y cyfle cyntaf, bob flwyddyn yn dilyn eu penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Derbyn

Er nad oes gan Weinidogion Cymru amserlen ragnodedig mewn deddfwriaeth ar gyfer pryd maent yn gosod amcangyfrifon y Comisiynwyr gerbron y Senedd, yn ymarferol, caiff yr amcangyfrifon eu gosod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Senedd gymeradwyo'r Gyllideb Derfynol. Caiff y cyllid y cytunir arno ar gyfer pob Comisiynydd ei nodi'n glir yn y gyllideb derfynol a gymeradwyir gan y Senedd. Mae'n annhebygol y bydd y dyraniad cyllid terfynol ar gyfer Comisiynwyr yr un peth â'r swm y gofynnwyd amdano ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw, yn yr un modd â sefydliadau eraill a blaenoriaethau gwariant ar draws portffolio Llywodraeth Cymru. Lle y bo'n bosibl, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol ond, fel y nodwyd uchod, ni all Gweinidogion ymrwymo i lefelau manwl gywir o gyllid ar gyfer y Comisiynwyr nes y cytunir ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r amserlen ar gyfer cyhoeddi yn amrywio yn unol â gweithdrefnau'r Senedd i gymeradwyo cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rheoli'r amserlen hon ond caiff ei harwain gan Reolau Sefydlog.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru – er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw – yn cyhoeddi amcangyfrifon Comisiynwyr Cymru ar ei thudalennau ar gyfer y Comisiynwyr ar y we.

Gwrthod

O dan bob un o'r darnau ar wahân o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Comisiynwyr, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod yr amcangyfrifon gerbron y Senedd gydag unrhyw addasiadau sy'n briodol yn eu tyb nhw. Maent felly ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Senedd. Bydd Comisiynwyr hefyd yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol ar eu gwefan eu hunain a fydd yn cynnwys manylion am eu cyllideb, eu hincwm a'u gwariant.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymell bod Gweinidog perthnasol Cymru yn cadarnhau a gafodd Amcangyfrif Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2022-23 ei osod gerbron y Senedd, gyda manylion y dyddiad y gwnaed hynny.

Derbyn

Cafodd Llywodraeth Cymru yr amcangyfrif statudol ar gyfer 2022-23 gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 29 Hydref 2021, bum mis cyn y flwyddyn ariannol. Gofynnodd y Comisiynydd am gyllideb o £2,322,173 ar gyfer 2022-23, cynnydd arfaethedig o 53 y cant i'r gyllideb o £1,509,000 a gafodd y Comisiynydd yn 2020-21 a 2021-22.

Gosododd Llywodraeth Cymru ei Chynnig o ran y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 gerbron y Senedd ar 20 Rhagfyr 2021. Amlinellodd hyn gyllideb ddrafft i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o £1,509,000 ar gyfer 2022-23 a chyllideb ddangosol o £1,509,000 ar gyfer 2023-24. Gosodwyd y Gyllideb Derfynol gerbron y Senedd ar 1 Mawrth 2022 a gadarnhaodd mai £1,509,000 oedd cyllideb y Comisiynydd ar gyfer 2022-23. Yn dilyn trafodaethau pellach am gyllid yn 2023/24, pennwyd cyllideb wirioneddol o £1,685,000 i'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn honno.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oedd amcangyfrif Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru o incwm a threuliau ar gyfer 2022-23 wedi'i osod gerbron y Senedd ar y pryd. Mae hyn bellach wedi'i unioni a hoffwn ymddiheuro am yr amryfusedd hwn. Gallaf gadarnhau na chafodd hyn unrhyw effaith ar yr adnoddau a roddwyd i'r Comisiynydd yn y flwyddyn ariannol honno.

Argymhelliad 9

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y dyraniadau cyllid ychwanegol – a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 – ar gyfer cydraddoldeb cyflog yn y cyrff hyd braich. Dylai hyn gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ar y dyraniadau disgwylidig a gwirioneddol, yn ogystal â sicrwydd bod y cyllid a ddyrannwyd yn bodloni'r costau cysylltiedig.

Derbyn

Daeth y cyllid cydraddoldeb cyflog y cytunodd Gweinidogion Cymru arno ym mis Mehefin 2022 yn sgil bron tair blynedd o drafodaethau yng Ngrŵp y Sector Datganoledig, sy'n cynnwys rheolwyr ac undebau o gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, swyddfeydd y Comisiynwyr a Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfanswm yn seiliedig ar nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth 2022 a oedd yn cael eu talu o dan isafswm Llywodraeth Cymru, a'r gwahaniaeth rhwng eu cyflog ac isafswm Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r graddfeydd cyflog a oedd ar waith ar

gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Ychwanegwyd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr at hyn er mwyn rhoi amcangyfrif o gyfanswm y gost i bob cyflogwr.

Gwnaeth pob corff hawliad ychwanegol am gostau cydraddoldeb cyflog fel rhan o'i broses i hawlio cymorth grant ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23. Darparwyd cyllid ychwanegol i bob Llinell Wariant berthnasol yn y Gyllideb o danwariant blaenorol. Ceir crynodeb o'r taliadau a oedd ar gael i'r ddau Gomisiynydd yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt ac a hawliwyd ganddynt isod.

		Graddfeydd cyflog 2021-22				
Comisiynydd	Staff yr effeithiwyd arnynt (CALI)	Cost cyflog (staff x gwahaniaeth mewn cyflog)	Cyfanswm y gost (cyflog + pensiwn, yswiriant gwladol)	Hawliad ar gyfer 2021-22	Hawliad ar gyfer 2022-23	Y cyfanswm a hawliwyd
Pobl Hŷn	5.8	£12000	£17000	£11000	£11000	£22000
Cenedlaethau'r Dyfodol	5.8	£11000	£16000	£18000	£19000	£37000

Tabl 1: Costau a hawliadau Cydraddoldeb Cyflog ar gyfer Comisiynwyr, 2021-22 a 2022-23.

Roedd y taliad uwch a hawliwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn bosibl oherwydd hawliadau is na'r disgwyl gan gyrff eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25, ychwanegwyd cyllid at y llinellau hynny a oedd yn golygu nad oedd angen gwneud unrhyw hawliad ychwanegol. Gan fod Gweinidogion wedi nodi y byddai codiadau cyflog blynyddol yn cael eu talu gan ddefnyddio adnoddau presennol fel arfer, cafodd y swm a roddir i'r holl gyrff dan sylw ei bennu ar ffigurau 2021-22.

Argymhelliad 10

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y broses sydd i'w mabwysiadu ganddi, neu Weinidogion Cymru, i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau posibl, sy'n deillio o gynnwys y Comisiynwyr o fewn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn. Yn fwyaf arwyddocaol, y risgiau cysylltiedig i annibyniaeth lle mae Comisiynydd yn gofyn am yswiriant cyllidebol ychwanegol neu gyllid ar gyfer adolygiad neu ymchwiliad i Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru.

Derbyn

Mae gan bob Comisiynydd swyddogaethau gwahanol a fyddai'n rhyngweithio â Llywodraeth Cymru ac felly mae angen i unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau gael eu hystyried yng nghyd-destun cyfrifoldebau statudol gwahanol y Comisiynwyr.

Nid yw'r Comisiynydd yn nodi a fydd yn defnyddio ei gyllideb adnoddau i ymchwilio i Lywodraeth Cymru neu Weinidog penodol pan gaiff y gyllideb ei chymeradwyo a'i dyfarnu. Pe bai'r Comisiynydd yn gofyn am gyllid ychwanegol er mwyn gallu ymchwilio i Weinidog penodol yn ystod y flwyddyn ariannol, ni fyddai'r Gweinidog dan sylw yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad cyllido hwnnw.

Mae Argymhellion 11 a 13 wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd er mwyn ymateb.

Argymhelliad 11

Mae'r Comisiynwyr yn nodi materion o ran y cyfyngiadau ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn yn dilyn dynodi – o fis Chwefror 2022 – eu swyddfeydd yn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. O ystyried y risg gysylltiedig i annibyniaeth a chanlyniadau anfwriadol eraill posibl, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y newidiadau ar ôl iddynt fod ar waith ers dwy flynedd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024.

Derbyn

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r effaith ar y Comisiynwyr o'u dwyn o fewn ei ffiniau cyfrifyddu. Dylid cwblhau hyn ddwy flynedd ar ôl i newidiadau o'r fath fod ar waith, a dylid rhoi diweddariad i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024.

Derbyn

Mae'r cyfyngiadau ar gronfeydd wrth gefn fel y'u nodir yn fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU a amlinellir yn nogfen *Consolidated Budgeting Guidance* Trysorlys EF. Dynodi yw'r broses sy'n dwyn corff o fewn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, nid yw statws dynodi'r corff yn cael unrhyw effaith ar y ffordd y caiff y fframwaith ei gymhwyso.

Mae dynodi'r Comisiynwyr o fewn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r ymrwymiad a wnaed mewn ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb, i ymgymryd ag ymarfer i gysoni ffiniau cyllidebol a chyfrifyddu. Mae dynodi cyrff llywodraeth ganolog yn egluro sefyllfa ariannol y sector cyfan, yn cynorthwyo prosesau cynllunio hirdymor a hefyd yn sicrhau bod y fframwaith priodol ar waith i'r cyrff hyn ddiogelu arian cyhoeddus.

Mae'r broses hefyd yn darparu ar gyfer yr angen i godi ymwybyddiaeth o ddiben dynodi a pharhau i fynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n ymwneud â chymhwyso'r fframwaith gwariant cyhoeddus i bob corff cyhoeddus a ddsberthir i'r sector llywodraeth ganolog gyda'r cyrff presennol. Caiff y broses ddynodi ffurfiol ei chyflawni drwy Orchymyn a wneir gan un o Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dim ond ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gyllideb y corff y mae dynodi yn effeithio, nid y ffordd y caiff fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU Trysorlys EF ei gymhwyso at y corff hwnnw. Mae'r cyfyngiadau ar gronfeydd wrth gefn fel y'u nodir yn fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU a amlinellir yn nogfen *Consolidated Budgeting Guidance* Trysorlys EF.

Mae'r wybodaeth hon eisoes i'w gweld yng Nghynnig y Gyllideb a'r dogfennau ategol a gyhoeddwyd. Nid yw'r Comisiynwyr yn cyrraedd y trothwy perthnasedd i gael eu cyfuno yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru a chyfuno yw unig effaith bosibl arall dynodi. Nid yw dynodi yn cael unrhyw effaith ar gyllideb; caiff yr ymdriniaeth â'r gyllideb ei phennu gan Fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU ac mae hwn yn seiliedig ar ddsbarthiad y cyfrifon cenedlaethol, nid statws dynodi corff.

Bydd y timau Cyllid perthnasol yn parhau i fonitro effaith y cydbwysedd rhwng gweithredu rhyddid a chyfyngiadau. Fodd bynnag, gan fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gyllideb gyhoeddus yn cael ei rheoli mewn cydymffurfiaeth â Fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU Trysorlys EF, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ysgwyddo'r risg a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw newid mewn polisi ar ran pwrs y wlad yng Nghymru.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am y dystiolaeth sy'n cefnogi lefel y cynnydd yn y terfynau arian parod y cytunwyd arnynt ar gyfer Comisiynwyr, yn ogystal â'r ymgysylltiad rhwng y partiön yn ei gylch.

Gwrthod

Mae Comisiynwyr yn defnyddio cyllid cyhoeddus ac felly maent yn ddarostyngedig i arferion gorau o ran rheoli arian parod, gan gynnwys na ddylid hawlio cymorth grant arian parod cyn bod angen. Y drefn safonol ymhlith cyrff hyd braich Llywodraeth Cymru yw nad yw'r cyrff hynny yn dal mwy na 2 y cant o gyfanswm yr incwm ar gyfer arian parod a gedwir.

Gan gydnabod cyfyngiadau terfyn o 2 y cant ar y Comisiynwyr a'u hamgylchiadau penodol, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar derfyn o 5 y cant o gyfanswm yr

incwm ar gyfer arian parod a gedwir er mwyn atal hyn rhag digwydd. Bwriedir i'r terfyn hwn ddarparu ar gyfer gwahaniaethau o ran amser taliadau a darparu cynllun wrth gefn i'r Comisiynwyr allu dechrau ymchwiliad yn ddi-oed wrth iddynt aros am benderfyniad cyllid. Os bydd y Comisiynwyr yn disgwyl dal mwy o arian parod na'r terfyn hwn, rhaid cael caniatâd gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 14

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad y mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi gofyn i'w swyddogion ei gynnal i gwmpas gwaith a chyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r diweddariad nodi'r amserlen ar gyfer ei gwblhau a pha bryd y mae swyddogion yn disgwyl rhoi cyngor i'r Gweinidog.

Derbyn

Ar 27 Mai 2022, [ysgrifennodd](#) y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gydag ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 2 adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn 2022, *Adroddiad Craffu Blynyddol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Diweddariad*. Roedd yr argymhelliad hwn yn ymwneud â gwerthusiad o gwmpas gwaith a chyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac roedd wedi'i osod o fewn cyd-destun yr adolygiad o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn ei [llythyr](#) ar 1 Rhagfyr 2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Comisiynydd mewn perthynas â'r goblygiadau o ran cost i'r swyddfa o ganlyniad i estyn nifer y gyrff sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd llesiant y Ddeddf.

Y tu hwnt i estyn y Ddeddf, dylai unrhyw werthusiad o ddyletswydd gyffredinol a swyddogaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn rhan o adolygiad ôl-weithredu ehangach i fesur effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chanfod ei heffaith wirioneddol. Gofynnodd y Gweinidog i swyddogion ymchwilio i gwmpas gwerthusiad o'r Ddeddf a'r angen i gynnal un, a allai gynnwys asesiad o rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd.

Mae swyddogion wedi cwblhau papur cwmpasu ar y dulliau gweithredu y gallai'r gwerthusiad hwn eu defnyddio ac maent wrthi'n penodi cymrawd ymchwil a ariennir gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU i ddatblygu'r dull gweithredu a chyflawni cam cyntaf y gwerthusiad. Mae hyn yn debygol o gynnwys adolygiad systematig o dystiolaeth ac asesiad o'r effaith gymdeithasol. O ystyried natur eang y Ddeddf a'i chyrhaeddiad o ran y llywodraeth, gyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chynghorau tref a chymuned, bydd angen i'r gwerthusiad gynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys pwyllgorau'r

Senedd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys Fforwm Rhanddeiliad Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sefydlwyd gan y Gweinidog.

Bydd gwerthusiad hefyd yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (dyletswydd monitro, pŵer adolygu, adroddiad blynyddol ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol), Archwilydd Cyffredinol Cymru (dyletswydd archwilio a chanlyniadau adroddiad archwiliadau), ac ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2020-21, sy'n cynnig gwybodaeth gyfoethog am sut mae'r Ddeddf yn gweithio. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo, gan gynnwys yr amserlenni tebygol ar gyfer y gwerthusiad amflwyddyn.

Argymhelliad 15

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pob Comisiynydd, gan gynnwys y cyllid a ddyrennir iddynt a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

Gwrthod

Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd pan gyflwynwyd pob darn perthnasol o ddeddfwriaeth sefydlu yn cynnwys manylion am y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso'r polisi (adolygiad ôl-weithredu).

Mae gan bob Comisiynydd ddyletswyddau a phwerau gwahanol sy'n gyson â'i ddeddfwriaeth sefydlu a'r agenda bolisi ehangach. Byddai adolygiad o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Comisiynwyr yn cynnwys tair Deddf gan Senedd y DU, Mesur Cynulliad Cenedlaethol a Deddf gan y Cynulliad. Nid yw Gweinidogion yn bwriadu cynnal adolygiad o'r fath ar hyn o bryd am nad ydym yn credu y byddai digon o fudd i Gomisiynwyr na Llywodraeth Cymru i gyfiawnhau'r gwariant. Mae cyllidebau Comisiynwyr wedi cael eu pennu yng ngoleuni sefyllfa gyffredinol y gyllideb ac, am nad yw cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, mae Comisiynwyr wedi wynebu'r un cyfyngiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Ni fyddai adolygiad o ddeddfwriaeth yn datrys y mater hwn.

Argymhelliad 16

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a allai deddfwriaeth newydd effeithio ar gylch gwaith Comisiynwyr Cymru, gan sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gyfer ymgorffori estyniadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried a all deddfwriaeth newydd effeithio ar gylch gwaith Comisiynwyr Cymru. Fel rhan o unrhyw Fil neu is-ddeddfwriaeth newydd gan y Senedd, mae angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â'r rheolau sefydlog a fydd yn cynnwys yr amcangyfrifon gorau o effaith debygol y ddeddfwriaeth honno, ac a fydd yn ffurfio rhan o'r Memorandwm Esboniadol. Bydd hyn yn cynnwys yr amcangyfrifon gorau o gostau gweinyddol ac arbedion, a phwy fyddai'n gyfrifol am y costau. Os mai Comisiynwyr fydd yn gyfrifol am y costau hyn, darperir ar gyfer amcangyfrifon. Yn yr un modd, os bydd deddfwriaeth newydd yn newid dyletswyddau a swyddogaethau Comisiynydd, byddai effaith hyn yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/2138/23

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddHealth@senedd.wales

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
SeneddPAPA@senedd.wales

24 Awst 2023

Annwyl Russell a Mark,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf, ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r ddogfen amgaeedig yn cynnwys fy ymateb i bob un o'r pwyntiau.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi, ac rwy'n hapus i roi rhagor o wybodaeth i chi yn ôl yr angen.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. Beth fydd strwythur a phroses Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru / Weinidogol o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Cynllun Ymateb Sefydliadol i Fesurau Arbennig.

Ymateb

Mae'r fframwaith Mesurau Arbennig yn nodi'n glir y rhesymau dros uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd a'r meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau. Bydd hyn yn arwain yr ymyrraeth Mesurau Arbennig ar gyfer gweddill 2023. Bydd yn cael ei adnewyddu ym mis Ionawr 2024 yn dilyn asesiad o'r cynnydd. Caiff blaenoriaethau a ffocws eu pennu ar gylch 90 diwrnod y cytunwyd arno fel yr amlinellir yn y Datganiad Ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf 2023 [Datganiad Ysgrifenedig: Mesurau Arbennig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - adroddiad cynnydd chwarterol \(6 Gorffennaf 2023\) | LLYW. CYMRU.](#) Gellir gweld y Fframwaith Mesurau Arbennig drwy'r un ddolen.

Nid yw gosod bwrdd iechyd mewn Mesurau Arbennig yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cymryd drosodd y gwaith o redeg y bwrdd iechyd o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y bwrdd yw hynny o hyd. Rôl Llywodraeth Cymru yw darparu goruchwyliaeth, sicrwydd a her lle bo'n briodol i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Mae Bwrdd Sicrwydd Mesurau Arbennig wedi'i sefydlu, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn cefnogi'r bwrdd iechyd i benderfynu pa gamau sy'n angenrheidiol i lywio llwybr effeithiol a chynaliadwy allan o Fesurau Arbennig. Cyfarfu'r bwrdd sicrwydd am yr eildro ar 26 Mai a bydd yn cyfarfod eto ym mis Awst. Bydd y bwrdd sicrwydd hefyd yn fy hysbysu, drwy sianeli llywodraethiant y cytunwyd arnynt, a oes camau priodol yn cael eu cymryd.

Yn ogystal â'r bwrdd sicrwydd, mae'r bwrdd iechyd yn mynychu Bwrdd Perfformiad ac Ansawdd Integredig misol. Mae hyn yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru ac mae'n darparu asesiad parhaus o'r cynnydd sy'n cael ei wneud. Cydategir hyn gan gyfarfodydd sicrwydd ychwanegol ar feysydd sy'n peri pryder megis gwasanaethau fasnwlaid, offthalmoleg, gofal wedi'i gynllunio ac Ysbyty Glan Clwyd ymhlith eraill. Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng swyddogion a staff y bwrdd iechyd. Fel gyda phob bwrdd iechyd, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfarfod JET (cyfarfod y Cyd-dîm Gweithredol) ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn.

Yn bersonol, rwyf yn cadeirio Fforwm Gwella Mesurau Arbennig; mae'r fforwm hwn wedi cyfarfod bedair gwaith. Bydd hwn yn parhau i gyfarfod bob deufis. Drwy'r cyfarfod hwn â Chadeirydd, Aelodau Annibynnol ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd yr wyf yn cael sicrwydd, neu fel arall, fod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS) hefyd yn mynychu'r fforwm hwn, yn ogystal â swyddogion eraill Llywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd yn cyfarfod yn fisol yn uniongyrchol â Chadeirydd y bwrdd iechyd lle'r wyf yn trafod cynnydd a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r bwrdd iechyd.

Ble bynnag y bo modd mae'r ddau ohonom yn ymweld â safleoedd amrywiol yn y rhanbarth. Yn fwyaf diweddar, roeddwn i yno rhwng 24 a 26 Gorffennaf 2023 ac ymwelais â'r tair Cymuned Gofal Iechyd Integredig. Ymwelodd y Dirprwy Weinidog â'r rhanbarth ar 2 Awst 2023.

2. Pa rôl y bydd y Tîm Ymyrraeth a Chymorth yn ei chwarae wrth adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd.

Ymateb

Mae nifer o unigolion yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i gefnogi'r bwrdd yn ei daith wella. Mae rhai wedi cael eu penodi'n Gynghorwyr Annibynnol ac eraill fel cymorth gweithredol i'r sefydliad. Ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru, hwn yw'r tîm Ymyrraeth a Chymorth. Mae cyfarfodydd rheolaidd â'r bwrdd iechyd ac ar wahân â Llywodraeth Cymru i uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder Mae pob aelod o'r tîm yn darparu adroddiad cryno ar ddiwedd pob mis. Mae pum aelod o'r tîm hwn wedi'u comisiynu tan ddiwedd Awst 2023, dau tan fis Medi 2023 a'r tri arall tan fis Mawrth 2024.

Caiff trafodaethau eu cynnal â'r bwrdd iechyd ynghylch y cymorth parhaus y mae arnynt ei angen o fis Medi 2023.

Yn anffodus, bu farw Geraint Evans, un o'r Cynghorwyr Annibynnol yn ddiweddar.

3. Rhowch wybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i benodi'r aelodau annibynnol dros dro. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:

- **Sut y canfu Llywodraeth Cymru ddarpar aelodau i'w penodi, a pha feini prawf a ddefnyddiwyd i ganfod addasrwydd y rhai a benodwyd i'r rolau.**

Ymateb

Wrth ystyried gofynion bwrdd newydd posibl ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd swyddogion yn glir ynghylch y priodoleddau a'r sgiliau y byddai angen i'r Cadeirydd newydd a'r Aelodau Annibynnol feddu arnynt. Un o'r prif ofynion oedd yr angen brys i newid y diwylliant ar draws y sefydliad ac roeddwn yn glir bod angen i hyn ddechrau ar frig y sefydliad.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r unigolion hynny a allai, yn seiliedig ar eu gwybodaeth am eu rolau a'u profiad presennol a blaenorol, fod yn addas ar gyfer rôl y Cadeirydd neu'r Aelodau Annibynnol.

Roedd y Cadeirydd Dros Dro eisoes wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer penodiad cyhoeddus ar y lefel hon yn dilyn ei gais i fod yn Is-gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd ganddo swydd gyhoeddus yn Awdurdod Cyllid Cymru ac mae'n gyn Arweinydd Cyngor. Roedd ei brofiad fel Arweinydd Cyngor, ac fel un o drigolion Gogledd Cymru, yn dangos ei ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.

Y farn oedd ei bod yn bwysig bod pob un a gâi ei benodi yn gallu dangos eu profiad o wasanaethu fel aelodau bwrdd neu ymddiriedolwyr, ac os oes modd, i ddangos

cysylltiad â Gogledd Cymru am eu bod yn preswyllo yno ar hyn o bryd neu oherwydd cysylltiadau proffesiynol, teuluol neu ddiwylliannol blaenorol.

- **Pa brosesau sydd ar waith i nodi unrhyw fuddiannau neu wrthdaro buddiannau perthnasol a allai effeithio ar benodiad aelodau annibynnol dros dro, eu gallu i gyflawni'r rôl, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni'r rôl. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw drefniadau sydd ar waith ar gyfer datrys unrhyw wrthdaro neu fuddiannau o'r fath sy'n anghydnaws â phenodiad, a/neu dryloywder wrth gofrestru gwrthdaro buddiannau nad ydynt yn atal y penodiad ond sydd, serch hynny, yn berthnasol i allu aelodau'r Bwrdd i gyflawni, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni, eu rôl.**

Ymateb

Gofynnir i bob penodai cyhoeddus gwblhau ffurflen fonitro wleidyddol a ffurflen gwrthdaro buddiannau wrth gael eu penodi gan yr Uned Penodiadau Cyhoeddus. Yn ogystal, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o'r bwrdd lenwi Ffurflen Datgan Buddiant yn unol â'u polisiâu a'u gweithdrefnau eu hunain. Cofnodir gwybodaeth a ddatgenir ar Gofrestr Datgan Buddiant a gynhelir gan y bwrdd iechyd.

Gellir gweld y Gofrestr Datgan Buddiant ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy'r ddolen ganlynol:

bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/dosbarth-chwech-rhestri-a-chofrestri/dosbarth-chwech-assets/cofrestr-datganiadau-yngghylch-buddiannau-gan-aelodau-bwrdd-bipbc-2023-24/

Lle y nodir gwrthdrawiad buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig, cymerir camau priodol i liniaru hyn. Yn achos y Cadeirydd dros dro, canfuwyd ei bod yn debygol y byddai gwrthdaro yngghylch ymrwymiad amser gofynnol rôl y Cadeirydd Dros Dro ac wedi hynny fe ymddiswyddodd o'i swydd gydag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Lle bo'r gwrthdrawiad gwirioneddol neu ganfyddedig yn ymwneud ag Aelod Annibynnol, mae'r Cadeirydd yn trafod hyn â'r unigolyn dan sylw cyn iddo gael ei benodi ac yn cytuno ar y camau gofynnol i sicrhau bod y bwrdd yn agored ac yn dryloyw yng ngweithrediad y bwrdd ac unrhyw swyddogaethau eraill y gallant eu cyflawni. Bydd y camau gofynnol yn dibynnu ar y gwrthdrawiad posibl a'r rôl sy'n cael ei chyflawni gan yr aelod annibynnol. Gallai hyn gynnwys ymatal rhag unrhyw drafodaethau lle y gallai fod gwrthdrawiad, sicrhau nad ydynt yn aelodau o bwyllgorau lle gall y gwrthdrawiad godi a pheidio ag ymweld â neu ymwneud â gwasanaethau/wardiau neu adrannau penodol.

Mae'r telerau a'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gysylltu â'r Cadeirydd ar unwaith os bydd ei amgylchiadau'n newid yn ystod y penodiad. Felly, unwaith eto, yn achos y Cadeirydd dros dro, roedd yn ofynnol iddo gysylltu ag ACC i drafod gwrthdrawiad canfyddedig pan gafodd ei benodi i BIPBC.

- **Pa gamau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cymhwysedd yn Atodlen 2 i Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.**

Ymateb

Roedd yr holl ymgeiswyr yn hysbys i swyddogion yn Llywodraeth Cymru a gofynnwyd iddynt ddarparu bywgraffiad yn manylu ar eu profiad blaenorol.

Yn dilyn penodiad, gwnaed gwiriadau pellach i sicrhau cymhwysedd ar gyfer y rolau. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwiriad adnabod
- Yr Hawl i Weithio
- Gwiriad DBS Sylfaenol
- Cofrestr Ansoffedd a Methdaliad
- Chwilio Rhestr Cyfarwyddwr Gwaharddedig Tŷ'r Cwmnïau

Gwnaed pob penodiad yn amodol ar wiriadau boddhaol a byddai methu â bodloni unrhyw un o'r meini prawf cymhwysedd wedi arwain at derfynu'r penodiad.

- **Pa adrannau o Lywodraeth Cymru oedd yn rhan o'r broses benodi.**

Ymateb

Roedd dwy adran yn rhan o'r broses benodi cyn cyflwyno argymhellion i'm swyddfa:

- Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Uned Cyrff Cyhoeddus

- **Unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei hystyried yn berthnasol neu rydych o'r farn fyddai'n ddefnyddiol i ni mewn perthynas â'r penodiadau hyn.**

Ymateb

Yn unol â'r broses Penodiadau Cyhoeddus, ymgynghorodd swyddogion Llywodraeth Cymru â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus mewn perthynas â'r angen i wneud nifer o benodiadau brys i sefydlogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nododd y swyddogion y byddai angen gwneud y penodiadau heb y gystadleuaeth arferol ac esboniodd y rhesymau dros hyn.

Roedd swyddogion yn cydnabod bod y Cadeirydd yn benodiad sylweddol a fyddai fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnal Gwrandawriad Craffu Cyn Penodi cyn i mi gadarnhau'r penderfyniad fel Gweinidog. Byddwn yn falch o fynyachu sesiwn graffu os yw Cadeirydd y Pwyllgor o'r farn bod hyn yn briodol.

4. Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro perfformiad aelodau dros dro y Bwrdd yn ystod cyfnod eu penodiad.

Ymateb

Mae'r broses safonol ar gyfer monitro perfformiad Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd yn cael ei chynnal gan Gadeirydd y bwrdd iechyd hwnnw gyda chefnogaeth gan y sefydliad (er enghraifft y tîm llywodraethiant corfforaethol neu swyddfa ysgrifennydd y bwrdd). Fy rôl i yw pennu amcanion ar gyfer y cadeirydd, cael gwybodaeth am ei berfformiad a chynnal yr arfarniadau perthnasol.

Gan fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn Mesurau Arbennig, mae'r broses ychydig yn wahanol, oherwydd y gwaith craffu ychwanegol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig iddo.

Rwyf wedi tynnu sylw yn adran un, at y prosesau sydd ar waith i ddwyn y Bwrdd i gyfrif drwy'r Fforwm Gwella Mesurau Arbennig a'm cyfarfodydd misol â'r Cadeirydd dros dro. Drwy'r mecanwaith hwn y byddaf yn monitro perfformiad aelodau'r Bwrdd dros dro. Yn dilyn fy nghyfarfod diweddaraf â'r Cadeirydd dros dro, rwyf wrthi'n cytuno ar nifer o amcanion gydag ef.

5. Amlinellwch pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer sicrhau penodiadau parhaol i'r Bwrdd, gan gynnwys rolau'r Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac aelodau annibynnol y bwrdd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr amserlenni, dull recriwtio arfaethedig, ac unrhyw feini prawf penodol sy'n benodol i rôl neu feini prawf personol y disgwylir i ymgeiswyr eu dangos

Ymateb

Mae'r broses recriwtio ar gyfer swydd wag yr Is-gadeirydd a dau Aelod Annibynnol yn mynd rhagddi. Gellir dod o hyd i'r hysbysebion a'r pecynnau ymgeisio [yma](#) ac [yma](#). Bydd sesiwn i randdeiliaid ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer, a fydd yn cynnwys unigolion o'r bwrdd iechyd a sefydliadau partner. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan gyfweiliad. Disgwylir i'r ddau gael eu cynnal ym mis Medi er mwyn galluogi aelodau'r bwrdd sylweddol i ymgymryd â'u penodiadau ym mis Hydref.

Bydd ail ymgyrch recriwtio i benodi Cadeirydd sylweddol a thri Aelod Annibynnol yn dechrau yn yr Hydref a bydd aelodau llwyddiannus yn cael eu penodi ym mis Mawrth 2024 pan ddaw telerau'r aelodau dros dro presennol i ben. Nid ydym wedi gorffen penderfynu ar sgiliau a phrofiad gofynnol deiliaid y swydd ar hyn o bryd; bydd hyn yn dibynnu ar ddadansoddiad o'r bwch sgiliau yn dilyn y recriwtio ym mis Gorffennaf.

Mae'n bwysig nodi bod arweinyddiaeth dosturiol yn ofyniad allweddol ar gyfer y swyddi hyn.

Mae penodiadau parhaol am gyfnod o bedair blynedd eisoes wedi'u gwneud i ddwy o'r tair swydd lle mae angen proses enwebu. Aelodau Annibynnol y Brifysgol a'r

Awdurdod Lleol yw'r rhain. Mae penodiad Aelod Annibynnol yr Undebau Llafur hefyd ar fin digwydd.

- 6. Byddai'r Pwyllgorau hefyd yn croesawu gwybodaeth am y broses a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer recriwtio penodiad o bwys i rôl y Prif Weithredwr yn y Bwrdd Iechyd.**

Ymateb

Rhoddodd Cadeirydd dros dro y bwrdd iechyd wybod i chi yn ystod ei sesiwn dystiolaeth ar 5 Gorffennaf 2023 y bydd Carol Shillabeer yn parhau yn ei swydd fel y Prif Weithredwr dros dro tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cytunodd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth y bwrdd iechyd ar hyn ym mis Gorffennaf 2023 a'i gyhoeddi i'r bwrdd iechyd ar 21 Gorffennaf 2023.

Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Cadeirydd dros dro i gytuno ar yr amser mwyaf priodol i ddechrau penodi'n barhaol i'r swydd hon.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Eitem 2.7
Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Russell George AS, Cadeirydd,

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS, Cadeirydd,

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

16 Awst 2023

Annwyl Russell a Mark,

Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf 2023 a oedd yn cynnwys adroddiad y Pwyllgorau ynghylch eich ymholiad uchod.

Mae ein hymatebion i'r adroddiad i'w gweld isod.

Yr eiddoch yn gywir

Helen Thomas, Prif Weithredwr

Simon Jones, Cadeirydd

02920 500 500

[igdc.gig.tudalen.y.gov.wales](https://www.gigdc.gig.tudalen.y.gov.wales)

**YMATEB IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU (DHCW) I:****Graffu gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru****Cyhoeddwyd Gorffennaf 2023****TRAWSNEWID I SEFYDLIAD NEWYDD**

Argymhelliad 1.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau priodol wrth bennu blaenoriaethau DHCW a chyflawni prosiectau mawr. Dylai hyn gynnwys:

- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei hun bod blaenoriaethau DHCW yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.
- Sut y gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau DHCW, gan gynnwys pryd a chan bwy.
- Sut mae Bwrdd DHCW a'r tîm gweithredol yn monitro cynnydd ar brosiectau mawr, gan gynnwys a yw llinellau amser a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.
- Pa rôl, os o gwbl, fydd yn cael ei chwarae gan Weithrediaeth GIG Cymru

- **Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei hun bod blaenoriaethau DHCW yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.**

Mae Llywodraeth Cymru yn dwyn DHCW i gyfrif am gyflawni yn seiliedig ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac mae ganddi gyfrifoldeb i sicrhau ei hun o ran cyflawni. Mae'n defnyddio nifer o fecanweithiau i wneud hyn, ond mater i Lywodraeth Cymru yw gwneud sylwadau ynghylch hynny.

Mae blaenoriaethau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru wedi'u nodi yn strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru, '[Cymru Iachach](#)' a strategaeth ddigidol hirdymor wedi'i hadnewyddu Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal sef '[Strategaeth Ddigidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#)' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, sy'n arbennig o berthnasol i DHCW.

Mae canllawiau cynllunio GIG Cymru sy'n cael eu diweddarau a'u cyhoeddi bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru i gyrrff y GIG yn nodi'r blaenoriaethau 1 – 3 blynedd, sy'n adlewyrchu Blaenoriaethau Gweinidogol. Mae DHCW yn cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn erbyn y canllawiau hyn. Yn 2022/23 lluniodd DHCW IMTP cytbwys a gafodd ei

02920 500 500



dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd DHCW IMTP ar gyfer 2023/24 – 2025/26 ac maent yn aros am adborth ffurfiol ar hyn gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd hefyd gynllun blynyddol cytbwys diwygiedig ar gyfer 2023/24.

- **Sut y gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau DHCW, gan gynnwys pryd a chan bwy.** Mae DHCW yn atebol i Lywodraeth Cymru, a darperir arweiniad a chyfeiriad gan [Fwrdd DHCW](#). Fel Bwrdd unedol, mae [aelodau Bwrdd Gweithredol ac Annibynnol](#) yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer DHCW, monitro perfformiad y sefydliad, a phenderfynu ar flaenoriaethau DHCW. Gwneir pob penderfyniad arwyddocaol am flaenoriaethau DHCW gan Fwrdd DHCW.

Mae blaenoriaethau DHCW wedi'u nodi yn ei [Gynllun Tymor Canolig Integredig \(IMTP\)](#), a gymeradwyir gan Fwrdd DHCW cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o gylch cynllunio blynyddol. Mae perfformiad yn erbyn yr IMTP yn cael ei fonitro trwy adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru a chyfarfodydd â hi, yn ogystal â throsolwg sefydliadol gan Fwrdd DHCW, gyda diweddariadau yn mynd i bob cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus trwy ei [Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig](#). Mae'r broses hon yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod blaenoriaethau DHCW yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.

Cyhoeddir fframwaith llywodraethu DHCW yn ei Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu ([GAF](#)). Gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau DHCW gan Fwrdd SHA a'r tîm rheoli gweithredol yn unol â'r fframwaith llywodraethu hwn. Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn [Rheolau Sefydlog](#) y sefydliad.

- **Sut mae Bwrdd DHCW a'r tîm gweithredol yn monitro cynnydd ar brosiectau mawr, gan gynnwys a yw llinellau amser a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.**

Mae DHCW yn cynnal rhai, ond nid pob un, o'r rhaglenni digidol mawr, gan ddarparu ystod o arbenigedd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, reoli rhaglenni, masnachol, technegol, cyflwyno a newid busnes, ac mae'n adrodd i fyrddau rhaglenni cenedlaethol perthnasol. Mae tîm gweithredol DHCW yn monitro cynnydd ar y prosiectau mawr hyn, gan gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir yn cael eu cyflawni. Adroddir ar hyn yn fisol i Fwrdd Rheoli DHCW a'i olrhain trwy Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) DHCW.

Nid yw DHCW yn gyfan gwbl atebol am gyflawni pob prosiect mawr. Mae Uwchberchnogion Cyfrifol (SROs) allanol yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac yn adrodd i Noddwr Llywodraeth Cymru. Mae llythyrau penodi SROs yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau y gall SROs *"gael eu dal yn bersonol gyfrifol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC)"*. Mae enghraifft o'r trefniadau hyn ar gyfer prosiectau mawr yn cynnwys: Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd (DSPP) – Ap GIG Cymru, Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol



(DMTP), y Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol (NDR) a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Fel y nodwyd yng [nghyflwyniad ysgrifenedig DHCW](#) i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2022 mae'r trefniadau hyn wedi arwain at rywfaint o amwysedd a diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau – *“Wrth symud ymlaen mae'n hollbwysig bod atebolrwydd a chyfrifoldebau Byrddau Rhaglenni Digidol a DHCW yn cael eu hegluro. Mae DHCW yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu a chynghori ar ffordd ymlaen (Tystiolaeth Ysgrifenedig DHCW, Hydref 2022)”*.

Ers hynny mae DHCW wedi comisiynu adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu rhaglenni mawr, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad gan arbenigwr annibynnol, sydd â phrofiad sylweddol o lywodraethu'r GIG. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn (gan ystyried adborth o adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol ehangach ar wahân) wedi'u cyhoeddi ac adroddiad wedi'i ddosbarthu i DHCW a Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi'i drafod yn ddiweddar (Gorffennaf 2023) rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr DHCW a Phrif Swyddog Digidol ac Arloesi Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru a'u derbyn gan DHCW. O ganlyniad, mae newidiadau i drefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwyllo rhaglenni mawr yn cael eu rhoi ar waith dros y misoedd nesaf.

Bydd y newidiadau hyn yn cynnwys tynnu atebolrwydd personol am gyflawni rhaglenni mawr oddi ar SROs, gan wneud y Swyddog Atebol yn DHCW yn gyfan gwbl atebol. Mae DHCW yn archwilio opsiynau gan gynnwys sefydlu is-bwyllgor ffurfiol o Fwrdd DHCW i roi sicrwydd ynghylch cyflawni rhaglenni mawr, gan gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni. O dan y trefniadau llywodraethu presennol, nid oes gan Fwrdd DHCW unrhyw awdurdod i ddwyn SROs i gyfrif am gyflawni'r rhaglenni mawr hyn, gan mai Noddwr Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, mae Bwrdd DHCW yn adolygu darpariaeth y rhaglenni mawr hyn yn rheolaidd trwy ei sicrwydd o [Gynllun Tymor Canolig Integredig DHCW](#).

▪ **Pa rôl, os o gwbl, fydd yn cael ei chwarae gan Weithrediaeth GIG Cymru.**

Mae DHCW yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhaglenni trawsnewid cenedlaethol, a rhwydweithiau clinigol cenedlaethol, sy'n rhan o Weithrediaeth y GIG a sefydlwyd yn ddiweddar. Bydd rolau, cyfrifoldebau a threfniadau gwaith yn cael eu cadarnhau trwy gyfarfod ar y cyd rhwng DHCW ac uwch dîm Gweithrediaeth y GIG sydd wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2023.

SYSTEM WYBODAETH GOFAL CYMUNEDOL CYMRU (WCCIS)

Argymhelliad 2.

02920 500 500

igdc.gig.cymru | pebyw.nhs.wales

Tudalen 36 o 36



Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi pwy sy'n gyfrifol am arwain rhaglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am Uwch-berchnogion Cyfrifol y rhaglen. Os yw Prif Weithredwr interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau fel SRO ar gyfer y rhaglen WCCIS, dylai Llywodraeth Cymru a DHCW gynnal asesiad i weld a yw'n realistig i un unigolyn ymgymryd â'r ddwy rôl ar yr un pryd, a rhoi gwybodaeth am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r rolau sy'n cael eu cyflawni ar yr un pryd.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi pwy sy'n gyfrifol am arwain rhaglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn rhaglen ffederal a oruchwylir gan Fwrdd Rhaglen ac a arweinir gan ddau Uwch-berchennog Cyfrifol (SROs) - un o GIG Cymru ac un o Awdurdod Lleol. Gweler argymhelliad 1 am ragor o fanylion am gyfrifoldeb am gyflawni prosiectau mawr.

Mae Bwrdd Arwain WCCIS yn adrodd i Lywodraeth Cymru.

Governance Structure



Mae Dave Street, yr SRO ar gyfer Awdurdodau Lleol, wedi nodi ei fwriad i roi'r gorau iddi. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Rhaglen i ddod o hyd i olynydd.

Mae Carol Shillabeer, yr Uwch-berchennog Cyfrifol ar gyfer Iechyd, wedi'i phenodi ym mis Mai 2023 yn Brif Swyddog Gweithredol dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hi wrthi'n ystyried ei sefyllfa a bydd yn rhoi gwybod i'r rhaglen yn fuan ynghylch a all hi barhau yn y rôl arweiniol hon.



Mae'r model arweinyddiaeth, gyda chynrychiolydd cyfatebol o'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd, wedi sicrhau cynrychiolaeth gytbwys ar gyfer y ddau sector. Mae'r ddau Uwch-berchennog Cyfrifol wedi cynnig arbenigedd helaeth yn y sector dan sylw ac ymgysylltu wedi'i gydlynu'n dda â phob un o'r sectorau ar lefel uwch.

Mae gan y rhaglen adnoddau rhaglen a arweinir gan gyfarwyddwr rhaglen a gyflogir gan DHCW. Hefyd, ers diwedd 2022 a recriwtio Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl DHCW, wedi caniatáu i WCCIS fod yn rhan graidd o gyfarwyddiaeth newydd o fewn DHCW sy'n canolbwyntio ar wasanaethau y tu allan i'r ysbyty.

Gan fod yr Uwch-berchnogion Cyfrifol yn adrodd yn uniongyrchol i Noddwr Llywodraeth Cymru, mater i Lywodraeth Cymru yw nodi a yw'n realistig ymgymryd â'r ddwy rôl, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni dwy rôl ar yr un pryd. Dylid nodi hefyd, yn unol â'r ymateb i argymhelliad 1, bod trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer prosiectau mawr yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 3.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf bob chwe mis i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd o ran darparu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth am wariant hyd yma, gwariant arfaethedig, nifer y byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n manteisio ar WCCIS, ac ymgysylltu neu ymgynghori â phartneriaid perthnasol. Dylid darparu'r diweddariad cyntaf yn yr ymatebion i'r adroddiad hwn.

- **Gwariant Rhaglen hyd yma**

Sefydlwyd Rhaglen WCCIS yn 2012 a llofnodwyd y contract cyntaf ym mis Ebrill 2015.

Costau gwirioneddol ac ymrwymedig DHCW ar gyfer cyflwyno CareDirector, cyflawni'r swyddogaeth lawn, a darparu seilwaith canolog hyd at fis Mawrth 2023 yw £21.18 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai cyfanswm y gwariant hyd yma yw £30 miliwn.

Mae gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf wedi'i gynnwys yn y tabl isod.

- **Gwariant ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 - Mawrth 2023**

Gweler y diagram isod am ddadansoddiad o wariant o fewn Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, a Thîm y Rhaglen Genedlaethol.



Gyda'r newid arfaethedig mewn trefniadau llywodraethu ar gyfer prosiectau mawr, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hadrodd yn gyhoeddus i Fwrdd a Phwyllgorau DHCW ac felly bydd dolenni i'r wybodaeth hon ar gael i'r Pwyllgor.

WCCIS Programme expenditure

Forecast	Full year FY22/23 Actuals	Forecast Full year FY24/25 end Q1
Staff (DHCW programme team)	£1,688,406	£2,296,317
Additional Supplier costs/Projects/Support/Training	£800,852	£467,831
Regional Funding	£1,635,403	£1,236,216
Totals	£4,124,661	4,000,363
DPIF Allocation	£4,153,700	4,000,000
Variance	£29,039	£-363

- **Gwariant wedi'i gynllunio – rhagolwg gwariant ar gyfer ymrwymiad y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) sy'n weddill ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 hyd Mawrth 2025**

Mae hyn yn cynrychioli darparu cymorth rhaglen ar gyfer parhau i ddatblygu'r swyddogaeth gyfredol am gyfnod cyfyngedig, ac yna'n cyfrannu at weithgareddau Cam 2 arfaethedig, a fydd yn gweld y plattform yn cael ei ddisodli. Gweler y diagram uchod am ddadansoddiad pellach. Mae gweithgareddau Cam 2 wedi'u cynnwys mewn achos busnes amlinellol (OBC), ac mae hwn, ynghyd â gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r Rhaglen, yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

- **Y defnydd o System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)**

Ym mis Mehefin 2023, roedd tua 18,840 o ddefnyddwyr â mynediad at CareDirector, sef y datrysiad WCCIS. Mae 19 o sefydliadau wedi rhoi'r system ar waith ers 2016, gan gynnwys 15 awdurdod lleol a phedwar bwrdd iechyd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi llofnodi gorchymyn defnyddio. Mae gan y Bwrdd Iechyd 400 o ddefnyddwyr yn defnyddio'r system yn weithredol trwy'r awdurdod lleol, ac mae'n bwriadu cymeradwyo achos busnes newydd. Mae BIP Bae Abertawe yn aros am gymeradwyaeth achos busnes i fwrw ymlaen â'r broses gyflwyno.



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales


Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Live Organisations

Out of 29 organisations, there are currently 20 active deployments across Wales, 19 live, comprising Local Authorities and Health Boards contractually utilising services, and representing almost 70% of dependent organisations across Wales; a further Health Board's deployment approval is being sought in July 2023.


	Apr 2022	Oct 2022	June 2023
Total number of users	14,254	17,445	18,840
Referrals created in last 30 days	28,995	-	
Referrals worked on in last 30 days	83,468	-	



Cysylltu gweithwyr profesiynol i ddarparu gofal cydgylltiedig gwell



Connecting professionals to deliver better joined up care





Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD



HEALTH BOARDS

Using WCCIS Platform

- Hywel Dda University Health Board
- Powys Teaching Health Board
- Aneurin Bevan University Health Board
- Betsi Cadwaldr University Health Board

Business Case Underway

- Swansea Bay University Health Board

DO Signed, Limited Use of WCCIS Platform

- Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Not Using WCCIS Platform

- Cardiff and Vale University Health Board



LOCAL AUTHORITIES

Using WCCIS Platform

- | | |
|---------------------------------------|--|
| Blaenau Gwent County Borough Council | Newport City Council |
| Bridgend County Borough Council | Powys County Council |
| Caerphilly County Borough Council | Rhondda Cynon Taf County Borough Council |
| Ceredigion County Council | Swansea Council |
| Conwy County Borough Council | Torfaen County Borough Council |
| Gwynedd Council | Vale of Glamorgan Council |
| Isle of Anglesey County Council | Wrexham County Borough Council |
| Merthyr Tydfil County Borough Council | |

Not Using WCCIS Platform

- | | |
|--------------------------------|------------------------------|
| Cardiff Council | Neath Port Talbot Council |
| Carmarthenshire County Council | Monmouthshire County Council |
| Denbighshire County Council | Pembrokeshire County Council |
| Flintshire County Council | |



• **Ymgysylltu ac Ymgynghori**

Trwy'r Adolygiad Strategol a'i ddarpariaeth barhaus yn erbyn strategaeth ymgysylltu WCCIS, mae'r tîm yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Gweler isod ddadansoddiad llawn o'r gweithgareddau ymgysylltu.

02920 500 500

igdc.gig.tudalen.y.peocyn.41.wales



Overview of Strategic Review + Phase 2 Engagement



WCCIS Programme : Preparing for the next phase



Yn ystod yr Adolygiad Strategol, bu Tîm Rhaglen Genedlaethol WCCIS yn ymgysylltu â'r holl sefydliadau partner ledled Cymru drwy'r gwaith adolygu gwreiddiol a wnaed gan Channel 3, yr ymgynghorwyr annibynnol. Troswyd eu hargymhellion cychwynnol wedyn yn dri phecon gwaith, a dyfarnwyd dau ohonynt – sef Strategaeth Dechnoleg, ac Adolygiad Rheoli Gwasanaeth – i Channel 3, a dyfarnwyd y trydydd sef Adolygiad Masnachol i In-Form Solutions.



Yn dilyn arolwg a anfonwyd at randdeiliaid ym mis Hydref-Tachwedd 2022, hwylusodd Channel 3 sesiynau ymgysylltu â chynrychiolwyr o bob rhanbarth ym mis Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd arolwg cenedlaethol o fodiwlau CareDirector hefyd gyda defnyddwyr terfynol ar yr adeg hon, wedi'i hwyluso gan Dîm Cenedlaethol y Rhaglen.

Daeth gwerthusiad Channel 3 i ben ym mis Ionawr 2023. Mae eu canlyniadau yn cynnwys rhestr o opsiynau technoleg a siarter yn awgrymu ffyrdd o weithio ar gyfer y tîm cenedlaethol ynghyd â phartneriaid rhanbarthol.

Ar yr un pryd, ymgymerodd yr ymgynghorwyr annibynnol In-Form Solutions â'r pecyn gwaith masnachol, gan anfon arolwg at arweinwyr sefydliadau ym mhob rhanbarth. Cafodd y canlyniadau hyn hefyd eu coladu a'u cwblhau ym mis Chwefror eleni.

Yna cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Uwch-berchnogion Cyfrifol WCCIS, Cyfarwyddwr Rhaglen WCCIS a gweinidogion Llywodraeth Cymru (LIC) ym mis Chwefror 2023 i adolygu canlyniadau pob un o'r tri phecyn gwaith. Ar yr adeg hon, rhoddwyd y dasg i Dîm y Rhaglen Genedlaethol i ymgymryd â chyfnod o ddiwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r opsiynau technoleg terfynol. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau ymgysylltu pellach gan Gyfarwyddwr Rhaglen WCCIS gydag arweinwyr ar draws pob rhanbarth.

Rydym yn croesawu'r cyfle i roi diweddariadau pellach i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Er mwyn osgoi dyblygu, bydd DHCW yn rhannu rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau DHCW yn y dyfodol, a mynediad at bapurau, lle bydd gwybodaeth bellach i ddangos cynnydd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ar gael.

Argymhelliad 4.

Yn eu hymatebion i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad adolygiad o strategaeth gontractio WCCIS a oedd i fod i adrodd erbyn mis Mawrth 2023.

Fel rhan o'r gwaith dilynol a wnaed mewn ymateb i'r Adolygiad Strategol, cynhaliwyd adolygiad o'r dull contract presennol a chynhyrwyd yr adroddiad 'Gwersi a ddysgwyd'. Darparodd In-Form Solution, sefydliad annibynnol a gomisiynwyd i wneud y gwaith hwn, werthusiad sy'n dilyn ymlaen o'i ymchwiliadau ac arolwg a rannwyd gyda Phrif Swyddogion Gweithredol, cyfarwyddwyr, a phenaethiaid sefydliadol a TGCh ledled Cymru ym mis Rhagfyr 2022.

Maent wedi cyflawni adolygiad o'r contract, adolygiad o opsiynau cynnyrch posibl wrth symud ymlaen, ac adroddiad ynghylch y gwersi a ddysgwyd. Mae'r rhain yn amlinellu cyfyngiadau contract presennol; argymhellion ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol; yn



argymhell bod angen i ni egluro rôl Tîm y Rhaglen Genedlaethol, perchnogaeth o'r Cytundeb Gwasanaeth Meistr, a chyfrifoldebau clir i DHCW.

MYNEDIAD CLEIFION I GOFNODION

Argymhelliad 5.

Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu amserlen ar gyfer cyflwyno Ap GIG Cymru ymhellach, gan gynnwys targedau allweddol, targedau cyflawnadwy, amserlenni a dibyniaethau. Dylai'r amserlen roi darlun clir o flaenoriaethau a chynlluniau, a galluogi monitro cynnydd. Dylai DHCW ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus cyn diwedd 2023 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn yr amserlen.

Mae Ap GIG Cymru yn defnyddio egwyddorion dylunio digidol, a dull iteraidd ac ystywyth o ddatblygu a chyflwyno'r Ap. Mae hyn wedi cynnwys cam 'beta preifat' o hydref 2022, a 'beta cyhoeddus' o fis Ebrill 2023. Mae'r Ap ar gael i'w lawrlwytho o'r App Store a Google Play. Yn ogystal, mae gwefan a swyddogaethau newydd yn cael eu cyflwyno trwy ryddhadau newydd a gwelliannau i'r Ap erbyn 2023.

Mae rhai o swyddogaethau'r Ap yn dibynnu ar bractisiau meddygon teulu yn cysylltu gwasanaethau a data â'r Ap. Mae hyn yn ffactor allweddol o ran amseriad cyflwyno pellach a mabwysiadu'r Ap yn ehangach.

Mae targedau y cytunwyd arnynt ar gyfer nodweddion swyddogaethol Ap GIG Cymru yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

- Mynediad at gofnodion gofal a gedwir gan feddygon teulu ar lefel grynodedb a chod, gallu i ail-danysgrifio a gallu trefnu apwyntiadau mewn practisiau meddygon teulu pan mae meddygon teulu wedi dewis galluogi'r gwasanaethau hyn.
- Gwell ymarferoldeb presgripsiwn gan gynnwys dewis fferyllfa ac anfon negeseuon pan fydd presgripsiynau'n barod.
- Dangos y gellir ehangu 'pensaerniaeth agored' yr Ap trwy integreiddio â datrysiadau trydydd parti, gan ddefnyddio porth cleifion Bae Abertawe (a ddarperir gan PKB) fel enghraifft.
- Cyfnodolyn llesiant fydd yn galluogi defnyddwyr yr ap i gyfrannu at eu cofnod iechyd eu hunain o fewn yr Ap.
- Golwg llinell amser iechyd o ddata sy'n hygyrch i gleifion o fewn yr Ap fel cam cyntaf i ddatgelu rhannau o'r cofnod iechyd o fewn yr Ap.

Mae dull graddol o gysylltu practisiau meddygon teulu. Y nod yw cysylltu pob practis meddyg teulu yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2024. Mae'r cynllun hwn a'r amserlen yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cam beta preifat, yn enwedig adborth gan bractisiau



meddygon teulu, parodrwydd technegol cyflenwyr meddalwedd meddygon teulu allweddol, y map technegol ar gyfer y gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein presennol yng Nghymru, ac ymarferoldeb y gwasanaeth NHS Login yng Nghymru a ddefnyddir i ddilysu ac adnabod defnyddwyr Ap yn ddiogel.

Nod y cynllun cyflwyno ar gyfer cysylltedd meddygon teulu a mabwysiadu'r Ap yn ehangach yw sicrhau cymaint o gyfranogiad â phosibl ledled Cymru erbyn mis Mawrth 2024. Defnyddir dwy system meddygon teulu yng Nghymru. Maent yn cael eu darparu gan Cegedim (Vision) ac EMIS. Mae'r cynllun cyflwyno fesul cam yn cynnwys:

- Cam 1 Beta Cyhoeddus o fis Ebrill i fis Mai 2023 - cysylltiad cychwynnol a phrofi mewn dau bractis sy'n defnyddio Cegedim Vision. Wedi'i gwblhau.
- Cam 2 Beta Cyhoeddus o fis Mai 2023 – rhagor o bractisiau sy'n defnyddio Cegedim Vision yn dechrau defnyddio'r ap fel rhan o'r dull graddol parhaus o gyflwyno Ap GIG Cymru. Mae 25 o brif bractisiau a 12 practis cangen wedi dechrau defnyddio'r ap hyd at fis Awst 2023 a bydd mwy o bractisiau sy'n defnyddio Cegedim Vision yn dechrau defnyddio'r ap trwy gamau 3 a 4. Mae ymarfer gwerthuso wedi'i gynnal i gefnogi gwelliant yn y broses gyflwyno ar gyfer practisiau Cegedim ac EMIS er mwyn cyflymu'r broses gyflwyno.
- Cam 3 o Beta Cyhoeddus rhwng mis Awst a Medi 2023 – cysylltiad cychwynnol a phrofi mewn 3 phractis sy'n defnyddio EMIS.
- Cam 4 o Beta Cyhoeddus rhwng mis Medi a Rhagfyr 2023 – cyflwyno ym mhob practis sy'n defnyddio EMIS.

Mae'r amserlen a'r cynllun cyflawni'n cael eu monitro'n agos gan Fwrdd Rhaglen DSPP a DHCW ac maent ar y trywydd iawn ar hyn o bryd. Mae cyllid ar gyfer parhau i gyflwyno Ap GIG Cymru a datblygu swyddogaethau a nodweddion ychwanegol wedi'i gadarnhau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025. Bydd DHCW yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau eglurder ar gyllid yn y dyfodol cyn gynted â phosibl.

Mae DHCW yn croesawu'r cyfle i roi diweddariad pellach erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023 i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Bydd DHCW hefyd yn rhannu rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau DHCW yn y dyfodol, ac yn rhoi mynediad at bapurau, lle bydd gwybodaeth bellach i ddangos cynnydd yn erbyn yr amserlen ar gael.

Argymhelliad 6.

Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer darparu gwybodaeth glir a hygyrch am sut i ddefnyddio Ap GIG Cymru. Dylid anelu at annog pobl ledled Cymru i ddefnyddio'r Ap, a sicrhau bod gan bobl hyder i'w ddefnyddio. Dylai DHCW ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Gweinyddiaeth Gyhoeddus cyn diwedd 2023 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y nifer sy'n defnyddio'r Ap.

Mae gan y Rhaglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (DSPP) Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd sy'n atebol am gefnogi cynhwysiant a sicrhau bod yr Ap yn cael ei gyd-ddylunio gan gleifion a'r cyhoedd. Mae'n cyfarfod yn fisol ac yn cynnwys aelodau o sefydliadau trydydd sector, grwpiau cynrychioli cleifion, y sector cyhoeddus ehangach a GIG Cymru. Mae'r Rhaglen yn gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i hyfforddi Hyrwyddwyr Digidol i gefnogi cleifion a'r cyhoedd i ddefnyddio Ap GIG Cymru.

Yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr, mae'r Rhaglen yn adnewyddu'r strategaeth gyfathrebu a fydd yn cynnwys gwybodaeth am sut i ddefnyddio Ap GIG Cymru. Yn ogystal, mae gan gleifion a'r cyhoedd fynediad at dudalennau cymorth a chefnogaeth yr Ap, [Hafan – Ap GIG Cymru](#) a [Home - NHS Wales App](#), sy'n cysylltu'n uniongyrchol â nodweddion penodol yn yr Ap. Mae fideos hefyd yn cael eu creu i roi cymorth pellach i gleifion a'r cyhoedd.

Mae Ap GIG Cymru ar gael o'r App Store a Google Play yn ogystal â'r wefan. Cefnogir y rhain gan wefan gymorth bwrpasol sy'n gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ([Ein cefndir - Ap GIG Cymru](#) ac [About us - NHS Wales App](#)). Mae'r Ap hefyd yn cael ei actifadu'n ddwyieithog ar gyfer rhaglenni darllen sgrin.

Bydd DHCW yn rhannu dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau DHCW yn y dyfodol, ac yn rhoi mynediad at bapurau, fydd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am faint o bobl sy'n manteisio ar Ap GIG Cymru.

Argymhelliad 7.

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi manylion am sut y bydd datblygu a chyflwyno Ap GIG Cymru yn cydnabod heriau allgau digidol ar gyfer gwahanol grwpiau o'r boblogaeth ac yn mynd i'r afael â'r heriau hynny. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y bydd yr Ap yn cael ei hyrwyddo, y sianeli cyfathrebu digidol ac nad ydynt yn ddigidol a fydd yn cael eu defnyddio i'w hyrwyddo, a sut y bydd DHCW yn sicrhau nad yw cyfathrebiadau digidol-yn-unig yn cael eu defnyddio'n ddiodyn.

Mae gan y rhaglen DSPP chwe grŵp sicrwydd annibynnol sy'n arwain datblygiad Ap GIG Cymru a'r defnydd ohono. Mae'r Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd yn sicrhau bod yr Ap yn cael ei gyd-ddylunio gan gleifion a'r cyhoedd, ac mae'r grŵp yn atebol am gefnogi cynhwysiant digidol a chynnwys cleifion a'r cyhoedd. Mae'n cyfarfod yn fisol ac yn cynnwys aelodau o sefydliadau trydydd sector, grwpiau cynrychioli cleifion, y sector cyhoeddus ehangach a GIG Cymru.

02920 500 500

igdc.gig.cymru | [nhs.wales](https://nhs.uk)

Tudalen 46 o 46



Er mwyn mynd i'r afael â heriau allgau digidol, mae'r Rhaglen wedi partneru â Chymunedau Digidol Cymru, sy'n hyfforddi 880 o Hyrwyddwyr Digidol i weithio drwy rwydweithiau (fel staff DHCW, sefydliadau trydydd sector, llyfrgelloedd cyhoeddus a chymdeithasau tai) i gefnogi pobl nad oes ganddynt fynediad i ddyfais, wifi/band eang a/neu gymwyseddau digidol neu bobl ag anabledd/nam ar y synhwyrâu sy'n eu hatal rhag cael mynediad i'r Ap. Mae bron i 100 o bobl wedi cael eu hyfforddi hyd yn hyn. Mae is-grŵp o'r Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd wedi'i sefydlu i arwain ar ddatblygu arolygon cynhwysiant digidol. Mae pecyn cymorth a chanllaw cyfathrebu ar gyfer practisiau meddygon teulu i gefnogi staff Practisiau Meddygon Teulu i hyrwyddo'r Ap yn lleol hefyd wedi'u cynhyrchu a'u rhannu. Mae sesiynau adborth misol gyda phractisiau meddygon teulu i wella cymorth i bractisiau ac i gleifion.

Trwy'r cyfuniad hwn o ddulliau gweithredu, nod y rhaglen yw sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl tra'n sicrhau cynwysoldeb a hygyrchedd i bob aelod o'r gymuned.

Mae Prif Weithredwr DHCW wedi'i benodi'n Arweinydd Gweithredol ar gyfer cynhwysiant digidol ac mae'n goruchwyllo rhaglen waith cynhwysiant digidol DHCW, y mae datblygiad a gwaith Ap GIG Cymru yn y dyfodol yn rhan ohoni. Yn ogystal, mae Aelod Annibynnol DHCW dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant digidol.

Mae rhyngwyneb defnyddiwr a dyluniad Ap GIG Cymru yn cadw at safonau a chanllawiau perthnasol ar gyfer dylunio da gan gynnwys yr iaith Gymraeg, cynhwysiant a hygyrchedd. Mae Ap GIG Cymru wedi cael ei archwilio'n annibynnol ar gyfer hygyrchedd i safon [AA WCAG 2.1](#). Cefnogir y gwaith sicrwydd hwn gan ymchwil defnyddwyr ffurfiol a gweithgareddau dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr sy'n llywio dyluniad nodweddion allweddol.

Mae'r grŵp sicrwydd hwn yn cefnogi ac yn monitro gweithgarwch rhaglen, gan gynnwys allbynnau'r Grŵp Sicrwydd Cyfathrebu sy'n gyfrifol am yr ymgyrch cyfathrebu cyhoeddus.

Fel rhan o adnewyddu ei ddull cyfathrebu, mae'r rhaglen DSPP wedi datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a fydd yn dechrau yn hydref 2023 ac yn cynnwys:

- Hysbysebion ar y Radio a'r Teledu: Mae darlledu ar y radio a'r teledu yn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfa eang a chysylltu ag unigolion nad ydynt efallai'n defnyddio llwyfannau digidol.
- Y Cyfryngau Cymdeithasol: Er ein bod yn cydnabod effaith cyfathrebu digidol, byddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â phobl sy'n deall technoleg, i rannu diweddariadau, ac annog trafodaethau yn y gymuned.
- Cyfryngau 'oddi allan i'r Cartref': Mae DHCW wedi gosod hysbysebion yn strategol ger practisiau meddygon teulu a lleoliadau allweddol eraill i dargedu unigolion yn y byd ffisegol ac atgyfnerthu'r neges bod ein Ap ar gael.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Bydd DHCW yn sicrhau bod sianeli cyfathrebu digidol ac nad ydynt yn ddigidol yn cael eu defnyddio drwy gydol y broses o hyrwyddo'r Ap.

Argymhelliad 8.

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu'r trefniadau llywodraethu a diogelu data sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a gweithredu Ap GIG Cymru.

Mae Ap GIG Cymru wedi'i adeiladu ar bensaernïaeth ddigidol a data cwmwl fodern sydd wedi'i sicrhau'n llawn ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelwch data.

Fel rhan o'i swyddogaethau statudol, mae DHCW yn rhoi sicrwydd gorfodol i bob cymhwysiad digidol a gwasanaeth data cenedlaethol newydd, fel y sefydliad arweiniol a'r awdurdod arbenigol ar gyfer GIG Cymru, gan gynnwys yr Ap. Mae bodloni gofynion sicrwydd yn angenrheidiol cyn y gall cymwysiaid a gwasanaethau newydd fynd yn fyw.

Fel rhaglen waith fawr, mae'r rhaglen DSPP yn glynu at weithdrefnau llywodraethu a sicrwydd DHCW a ategir gan grwpiau sicrwydd ychwanegol, a sefydlwyd i ddarparu arweiniad pellach gan randdeiliaid allweddol gyda DHCW, GIG Cymru a grwpiau cynrychiolaeth y trydydd sector/sector cyhoeddus. Mae gan y Rhaglen DSPP rwydwaith llywodraethu y cytunwyd arno ar gyfer gweithgareddau sicrwydd llywodraethu gwybodaeth.

O fewn y rhaglen mae'r Grŵp Sicrwydd Moeseg, Diogelwch Cleifion a Llywodraethu Gwybodaeth (EIGAG) yn rhoi sicrwydd allweddol yn y maes hwn. Ar lefel genedlaethol, mae rhanddeiliaid y GIG yn rhoi sicrwydd ychwanegol drwy Grŵp Cyngori Cenedlaethol ar Reoli a Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru (IGMAG). Fel rhan o'r dull safonol hwn mae cyfres o Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd Data wedi'u cynnal i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ac i sicrhau bod data cleifion yn cael eu diogelu. Mae [Hysbysiad Preifatrwydd](#) wedi'i gyhoeddi. Mae'r Rhaglen DSPP wedi sefydlu rhwydwaith a grwpiau sicrwydd llywodraethu gwybodaeth sy'n cynnwys aelodaeth o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Ar gyfer diogelwch digidol a data, mae'r grwpiau a'r partneriaid sicrwydd allweddol yn cynnwys Seiberddiogelwch DHCW sy'n gweithio'n agos gyda thîm diogelwch DSPP i roi sicrwydd ynghylch platfform Ap GIG Cymru a nodweddion cysylltiedig. Yn ogystal, mae sicrwydd cwmwl penodol yn cael ei oruchwylio gan Gyngor Cwmwl DHCW. Mae gan y Grŵp Sicrwydd Technegol (TAG) drosolwg misol a chymeradwyaeth derfynol o unrhyw gynhyrchion/gweithgareddau sicrwydd diogelwch a gyflawnir.

Mae DHCW a'r Rhaglen DSPP hefyd yn rhoi sicrwydd pellach o ddyluniad technegol a phensaernïaeth yr Ap, gan gynnwys cysylltiadau trydydd parti, safonau Ansawdd a Rheoli

02920 500 500



Gwasanaeth ISO, parhad busnes, lletya yn y cwmwl, cymwysiadau gwe, a rheoli risg glinigol. Mae proses sicrwydd ychwanegol ar wahân ar gyfer elfen NHS Login Ap GIG Cymru, gan gynnwys cytundebau cysylltu a phrosesu ffurfiol (mae NHS Login yn eiddo i GIG Lloegr ac yn cael ei reoli ganddo).

GOFAL CYMDEITHASOL

Argymhelliad 9.

Erbyn diwedd 2023 dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyhoeddi cynllun clir, realistig wedi'i flaenoriaethu ar gyfer cynyddu ei ymgysylltiad â'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Dylid datblygu'r cynllun drwy ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol, a dylai gynnwys amserlenni clir ac asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ei gyflawni. Dylai DHCW ddarparu copi o'r cynllun i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a darparu diweddariadau bob chwe mis ar gynnydd yn erbyn y cynllun.

Sefydlwyd DHCW fel rhan o GIG Cymru i ddarparu plattfformau, systemau a gwasanaethau digidol ar gyfer GIG Cymru.

Cytunodd Bwrdd Rhaglen Sefydlu SHA mai rôl DHCW o ran gofal fyddai cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau digidol cydgysylltiedig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, heb effeithio ar y mecanweithiau presennol ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer darparu gofal yn uniongyrchol. Fel corff GIG cenedlaethol, nid yw DHCW yn aelod o unrhyw Fyrdau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae DHCW wedi sefydlu nifer o bartneriaethau trwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gan gynnwys gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn ogystal, mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr DHCW yn cyfarfod yn rheolaidd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae DHCW yn gweithio'n agos gyda Phrif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol Cymru a thîm Digidol Llywodraeth Cymru.

Mae DHCW yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Leol ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru i sicrhau bod DHCW yn deall y farchnad cyflenwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys dyluniadau data ar gyfer gwasanaethau trawsbynciol.

Erbyn diwedd 2023, bydd DHCW wedi llunio cynllun ymgysylltu cynhwysfawr ar gyfer Cam 2 System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae gwaith eisoes ar y gweill o fewn DHCW i gynhyrchu cynllun clir, realistig wedi'i flaenoriaethu ar gyfer yr ymgysylltu hwn, a'r nod yw sicrhau bod hwn ar gael i'w adolygu erbyn diwedd Chwarter 3 Blwyddyn Ariannol 23/24.

Tasg	Amserlen	Statws
------	----------	--------



Creu rôl Uwch Ddefnyddiwr gofal cymdeithasol ar y Bwrdd Prosiect	-	WEDI'I CHWBLHAU - mae Damian Rees (Abertawe) yn cyflawni'r rôl dros dro
Cyflwyno'r Prosiect i Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS), Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS) a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan (AWASH)		WEDI'I CHYFLAWNI
Mewnbwn gofal cymdeithasol i fanyleb gofynion	Gorffennaf – Medi 23	AR Y GWEILL
Awdurdodau Lleol yn cymryd rhan mewn gweithdai Ymgysylltu Rhanbarthol	Awst–Medi 23	WEDI'I CHYNLLUNIO – yn dibynnu ar Gyngor Gweinidogol ar gyfer Cam 2
Ymgynghori â'r farchnad meddalwedd gofal cymdeithasol	Awst–Medi 23	WEDI'I CHYNLLUNIO – yn dibynnu ar Gyngor Gweinidogol ar gyfer Cam 2
Datblygu strategaeth Profiad Defnyddwyr yn ystyried anghenion defnyddwyr gofal cymdeithasol	Awst 23	AR Y GWEILL
Datblygu cynlluniau gwasanaethau digidol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau integredig gydag iechyd	Parhaus	AR Y GWEILL



Mae ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol eisoes yn sylweddol ac yn barhaus ar draws nifer o feysydd, yn fwyaf nodedig drwy'r Rhaglen WCCIS ac ym maes Adnodd Data Cenedlaethol lle mae gwaith ar Bolisi Data yn cael ei arwain gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill yn cynnwys:

- Mae'r Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl wedi penodi Rheolwr Rhaglen ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae'r dyddiad dechrau i'w gadarnhau ond disgwylir iddo fod yn ei swydd erbyn mis Medi 23.
- Mae ymgysylltu wedi'i gynllunio ar gyfer Cam 2 Rhaglen WCCIS gyda phob Awdurdod Lleol, i ymgysylltu â'r rhaglen ar safonau data cyffredin a dulliau dylunio digidol i'w defnyddio gan bawb. Ymgysylltu ar Ddylunio Digidol gydag ymgyrch i gynhyrchu dull agnostig system o safoni prosesau a data, sydd yn ei dro yn cefnogi rhyngweithrededd rhwng systemau ac adroddiadau cyson a setiau data
- Mae ymgysylltu wedi'i gynllunio gyda'r Awdurdodau Lleol hynny sy'n ymwneud â disodli'r cymhwysiad CareDirector WCCIS er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni
- Bydd gwaith dilynol Darganfod Iechyd Meddwl yn cynnwys edrych yn fanylach ar agweddau Gofal Cymdeithasol
- Bu cryn ymgysylltu â datblygu cynllun ar gyfer y gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n agosáu at y cyfnod peilot. Bydd hyn yn cael ei dreialu gyda Chyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Mae'r gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl o fewn DHCW wedi gwahodd ymgysylltiad â Gofal a Thrwsio Cymru
- Mae Arweinwyr Rhanbarthol WCCIS yn gyfrifol am gyfarfod ag Arweinwyr Rhanbarthol yn rheolaidd ac yn hwyluso cyfarfodydd 'bord gron' bob deufis ar gyfer yr Arweinwyr.

Mae DHCW yn croesawu'r cyfle i ddarparu manylion am ddyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau DHCW yn y dyfodol, ac yn rhoi mynediad at bapurau, lle bydd rhagor o wybodaeth am y cynllun ymgysylltu ar gyfer Cam 2 WCCIS ac Ymgysylltu ehangach â Rhanddeiliaid â'r Sector Gofal Cymdeithasol (gweler yr ymateb i Argymhelliad 15) ar gael.

GWEITHLU DHCW

Argymhelliad 10.

Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth ynghylch y systemau adnoddau dynol a'r capasiti sydd ar gael i hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw pobl â sgiliau arbenigol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n nodi ble mae'r bylchau allweddol a'r swyddi gwag, sut mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau yn cael eu blaenoriaethu, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau i gyflawni sy'n deillio o'r swyddi gwag. Yn dilyn darparu'r wybodaeth hon yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai DHCW roi diweddariadau cynnydd pob chwe mis i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

02920 500 500



Mae'r systemau adnoddau dynol a'r capasiti sydd ar gael i hwyluso recriwtio a chadw sgiliau arbenigol yn cynnwys:

- Tîm ymroddedig sy'n goruchwyllo gweithgareddau recriwtio yn ogystal â phroses gwerthuso swyddi mewnol
- Mae'r gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi cynnal [ymarfer cynllunio gweithlu strategol](#) yn ddiweddar i nodi anghenion sgiliau a chyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y dyfodol.
- Gwerthusiadau blynyddol ar gyfer yr holl staff a grŵp llesiant staff i annog a hyrwyddo gweithgareddau llesiant i helpu i gadw staff
- Llwybrau gyrfa a chyfleoedd datblygu ar draws DHCW i sicrhau bod y sefydliad yn cadw staff ac yn rhoi cyfle i arallgyfeirio a gwneud cynnydd o fewn y sefydliad

Mae Grŵp Adnoddau Strategol wedi'i sefydlu a'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol i oruchwyllo recriwtio, gan gynnwys defnyddio cytundebau masnachol ar gyfer pecynnau gwaith tymor byrrach, monitro'r Traciwr Adnoddau yn rheolaidd. Mae'r Traciwr Adnoddau yn cynnwys gwybodaeth am swyddi gwag yn gysylltiedig â rhagolygon cyflog a chynnydd yn erbyn cerrig milltir recriwtio.

Mae DHCW yn gweithio mewn partneriaeth â theulu ehangach GIG Cymru gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), cydweithwyr yn y sector cyhoeddus, y byd academiaidd a diwydiant i gynnig cyfleoedd dysgu a rhwydweithio ehangach gan gynnwys cymwysterau a nawdd.

Mae nifer o fframweithiau polisi sector cyhoeddus y mae'n rhaid i DHCW weithredu oddi mewn iddynt, gan gynnwys cadw at delerau ac amodau cyflog Agenda ar gyfer Newid y GIG, a all atal DHCW rhag gallu cystadlu ar gyflog am rolau digidol prin.

Mae risgiau sy'n ymwneud â swyddi gweigion a allai effeithio ar gyflawni yn cael eu monitro trwy ein cofrestr risg gorfforaethol a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd ac is-bwyllgorau'r Bwrdd.

Mae DHCW yn croesawu'r cyfle i rannu dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor DHCW, a rhoi mynediad at bapurau, lle bydd diweddariadau pellach i ddangos cynnydd yn erbyn yr amserlen ar gael.

Argymhelliad 11.

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y garfan o brentisiaid gradd ddigidol a raddiodd drwy Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru ym mis Tachwedd 2022. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am faint o'r graddedigion a aeth i gyflogaeth gyda DHCW ar ôl graddio a faint sy'n dal yng nghyflogaeth DHCW ym mis Mehefin 2023. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth am sut mae'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n cael eu blaenoriaethu yn y rhaglen yn cyd-fynd â'r meysydd y mae DHCW

02920 500 500



wedi nodi eu bod yn anodd iddo gystadlu ynddynt wrth recriwtio, ac i ba raddau y mae'r rhaglen yn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth o'r fath yn fewnol.

Er mwyn sicrhau talent y dyfodol mae DHCW yn parhau i weithio gyda phartneriaid strategol fel Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI) a phrifysgolion eraill ar raglenni datblygu. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni prentisiaeth ddigidol a chyrtsiau gwybodeg iechyd i raddedigion.

Graddiodd y garfan gyntaf o Brentisiaid Gradd Ddigidol o DHCW ar 25 Tachwedd 2022. Roedd y saith unigolyn yn gweithio'n barhaol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Ym mis Mehefin 2023, roedd pump o'r unigolion yn dal i gael eu cyflogi gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Ers dechrau'r cymhwyster, mae pob un o'r pum unigolyn wedi cael dyrchafiad yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Oherwydd y prinder presennol o sgiliau digidol yn y DU, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn wynebu heriau o ran recriwtio yn enwedig ar gyfer swyddi sy'n gofyn am sgiliau yn ymwneud â'r Cwmwl, Datblygu Meddalwedd, Seiber, Data a Dadansoddi (Data a Busnes). Bob blwyddyn, mae'r sefydliad yn cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddi i nodi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ac mae'n blaenoriaethu cyllideb a hyfforddiant yn unol â hynny. Mae'r modiwlau sy'n rhan o'r Prentisiaethau Gradd Ddigidol yn darparu gwybodaeth a sgiliau trylwyr mewn meysydd arbenigol fel Rhwydweithiau Cyfrifiadurol, Diogelwch Data, Seiberddiogelwch, Dadansoddi Data, Delweddu a Datblygu Meddalwedd. Mae'r meysydd hyn yn cyd-fynd â meysydd mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'u nodi yn rhai sy'n wynebu heriau o ran recriwtio, fel y nodir uchod. Mae cynnwys y cwrs wedi'i gynllunio ar gyfer cyflogadwyedd a datblygu sgiliau sy'n berthnasol i uwchsgilio ein gweithwyr ac sy'n cefnogi ein hagenda 'Tyfu ein Pobl ein Hunain'.

Argymhelliad 12.

Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru fyfyrion ar ganfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ar seiberddiogelwch ac ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn egluro sut mae'n gweithredu ac yn nodi'n fras y negeseuon allweddol yn yr adroddiad. Dylai hefyd ddarparu enghreifftiau o sut mae'n rhannu arfer da gyda sefydliadau cyhoeddus eraill ac yn rhoi arweiniad iddynt.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn croesawu'r cyfle i fyfyrion ar ganfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ar seiberddiogelwch, sydd wedi cael ei gyflwyno i ddau is-bwyllgor Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn sesiwn breifat er mwyn ei ystyried ac er mwyn meithrin dealltwriaeth. Yn ogystal â hyn, Iechyd a Gofal Digidol Cymru wnaeth hwyluso rhannu'r adroddiad hwn â Rhwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol Cymru Gyfan fel y gallai pob Corff Iechyd yng Nghymru sydd wedi'i gynrychioli ar y rhwydwaith hwn ystyried y canfyddiadau.



Mae crynodeb o negeseuon allweddol yr adroddiad a sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu ac yn nodi'n fras y negeseuon yn yr adroddiad, yn rhannu arfer da ac yn rhoi arweiniad i sefydliadau cyhoeddus eraill wedi'u nodi isod:

'Fe allen ni golli popeth', os bydd un peth yn methu, bydd popeth yn methu.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Digidol ac Arweinwyr Seiber GIG Cymru ar draws GIG Cymru i dynnu sylw at elfennau gwan ar draws ystod o safonau yn ymwneud â seiber a gwydnwch. Mae Tîm Seiber Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu adroddiadau sy'n adlewyrchu'r agwedd genedlaethol yn ymwneud â seilwaith etifeddol a mabwysiadu safonau dilysu a rheoli cyfrineiriau. Ochr yn ochr â darparu'r metrigau i nodi meysydd i'w gwella, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cadeirio is-grŵp o arweinwyr technegol ar draws GIG Cymru ac yn darparu cyngor a datrysiadau technegol ar gyfer unioni'r gwendidau critigol hyn.

O fewn y pedair blynedd diwethaf mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi uwchraddio neu ddatgomisiynu nifer fawr o weinyddion etifeddol. Mae hyn wedi arwain at nifer sylweddol llai o seilwaith sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes, ble does dim modd rhoi cymorth yn ei gylch mwyach. Mae hyn yn ei dro wedi lleihau'r risg o broblemau yn ymwneud â pherfformiad, diffodd seilwaith a bygythiadau a gwendidau yn ymwneud â seiberddiogelwch. Mae'r gweithgaredd hwn hefyd wedi rhoi'r cyfle i ddechrau mabwysiadu Cwmwl Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rhan o waith ailgynllunio gwasanaethau.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu arweinyddiaeth seiber a gwydnwch i GIG Cymru ac mae wedi rhoi cefnogaeth i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sawl digwyddiad seiber. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r tîm seiber wedi arwain, cydlynu a choladu gwybodaeth ar draws GIG Cymru mewn perthynas â digwyddiadau fel Adastra, Log4j, Movelt, gwendidau sylweddol gan Microsoft a sawl ymosodiad arall.

Mae'r Ganolfan Gweithrediadau Diogelwch sy'n cael ei datblygu a'i hadeiladu yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn newid sylweddol o ran cynyddu gallu GIG Cymru i nodi ac atal ymosodiadau seiber, cael gwared arnynt ac adfer ar eu hôl. Mae datrysiadau cenedlaethol fel y gwasanaeth Gwybodaeth Ddiogelwch a Rheoli Digwyddiadau yn darparu'r gallu i roi data yn ei gyd-destun a darparu'r gwelededd a'r wybodaeth sydd eu hangen i gadw GIG Cymru yn ddiogel.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio'n agos â grwpiau seilwaith a diogelwch cenedlaethol i ddarparu'r newyddion diweddaraf ac argymhellion o'i waith rhyngweithio rheolaidd â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn GCHQ.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r tîm seiber i gydlynu a chynghori ar y defnydd priodol o gyllid cenedlaethol i gynyddu lefelau cenedlaethol o seiber a gwydnwch.

Nid mater TG yn unig yw seiber



Mae arweinwyr seiber Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth godi ymwybyddiaeth ar draws tîm arweinyddiaeth ehangach GIG Cymru. Mae Swyddogion Gweithredol y GIG a grwpiau aelodau annibynnol ledled Cymru yn gwahodd tîm seiber Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheolaidd i gyflwyno manylion am ddigwyddiadau, gwersi a ddysgwyd, risg seiber ac i addysgu sefydliadau am y camau sydd eu hangen i wella eu hagwedd leol yn ymwneud â seiber a gwydnwch. Ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru Weminar Seiber ar gyfer aelodau Bwrdd GIG Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau seiber i Gyrrff y GIG. Aeth dros 100 o aelodau Bwrdd GIG Cymru i'r weminar, ac roedd siaradwyr mewnol allweddol, sefydliadau Iechyd allanol, GIG Lloegr a'r NCSC yno. Ar ôl derbyn adborth cadarnhaol iawn ar y digwyddiad, mae arweinwyr seiber wedi cael eu gwahodd i siarad mewn ystod o sesiynau Bwrdd GIG Cymru.

Pobl yw ein hased mwyaf

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r hyfforddiant Seiber a Gwydnwch sy'n ofynnol yn lleol i ddod yn ofyniad a reolir yn ganolog ar gyfer GIG Cymru.

Mae'r ymgyrchoedd gwe-rwydo mewnol a weithredir gan dîm seiber Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi bod yn hynod llwyddiannus ac wedi lleihau nifer y defnyddwyr sy'n rhyngweithio â'r e-byst maleisus hyn o tua 15% mewn blynyddoedd blaenorol i lai nag 1% y flwyddyn ddiwethaf (2022/23). Mae llwyddiant amlwg yr ymgyrchoedd hyn wedi arwain at sawl Practis Meddygon Teulu yng Nghymru yn treialu'r gwasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru hwn.

Risg 3^{ydd} Partion a'r Gadwyn Gyflenwi

Nod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw darparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf. Er mwyn cyflawni hyn bydd gofyn gweithio gydag ystod eang o 3^{ydd} partion i ddarparu arloesedd a chyflwyno systemau cenedlaethol. O safbwynt seiberddiogelwch mae hyn yn cyflwyno ystod o risgiau. Nid yw'r risgiau hyn yn unigryw i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyfeirir yn benodol at risgiau yn y gadwyn gyflenwi yn Adroddiadau Blynyddol y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) ar gyfer 2021 a 2022.

Mae'r swyddogaeth Rheoli Contractau Seiberddiogelwch yn pennu sawl amcan sy'n adlewyrchu dull gweithredu strategol, cyraeddadwy, fesul cam o sicrhau bod trefnau rheoli risg seiberddiogelwch yn y gadwyn gyflenwi yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus ar draws Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac o bosibl GIG Cymru gyfan.

Prif amcanion y swyddogaeth benodedig newydd hon yw:



- Sicrhau bod risgiau seiberddiogelwch yn cael eu hystyried ymlaen llaw yn ystod pob gweithgaredd caffael a bod mesurau rheoli yn cael eu gweithredu sy'n gymesur â'r risg.
- Rheoli risgiau seiberddiogelwch yn effeithiol drwy gydol oes contractau.
- Gosod DHCW fel arweinydd yn GIG Cymru ar gyfer rheoli risg cadwyn gyflenwi seiberddiogelwch.

Mae cynnal ymarferion yn eich gwneud yn fwy cadarn, gan eich gwneud yn barod i ymateb pan fydd yr anochel yn digwydd

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn profi yn rheolaidd ei allu i ymateb i ymosodiadau a allai beryglu'r systemau hanfodol mae'n eu darparu i GIG Cymru. Mae'r profion hyn yn cynnwys ymarferion technegol wedi'u cymeradwyo gan yr NCSC ar lefel tîm hyd at Ymarferion Ymateb i Ddigwyddiadau wedi'u rheoli'n llawn ar gyfer y strwythur rheolaeth Efydd, Arian ac Aur ar alwad. Yn fuan, bydd y profion a gynhelir ar lefel leol yn cynnwys cynnal ymarferion cenedlaethol ar gais grŵp Cyfarwyddwyr Digidol GIG Cymru.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ennill bri fel yr awdurdod ar gyfer seiberddiogelwch ym maes iechyd a gofal yng Nghymru. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi datblygu Cynllun Gwella Seiberddiogelwch 3 Blynedd manwl ac Achos Busnes cysylltiedig (wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru) sy'n amlinellu'r buddsoddiad hanfodol sydd ei angen i ddarparu datrysiadau cenedlaethol i risgiau sy'n effeithio ar GIG Cymru gyfan. Wrth aros am ganlyniad yr achos busnes a gyflwynir, mae Tîm Seiber Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn arwain, yn llywio ac yn sicrhau amddiffyniad seiberddiogelwch ar gyfer GIG Cymru. Dylid nodi bod cynnydd yn y maes hwn yn dibynnu ar gael cyllid wedi'i gymeradwyo ac os na fydd hyn yn bosibl, ni fydd arian ar gael i roi rheolaethau diogelwch newydd neu well ar waith.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y meysydd seiberddiogelwch hollbwysig hyn.

RHAGLEN TRAWSNEWID

Argymhelliad 13.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi gwybodaeth ychwanegol am eu rolau priodol wrth arwain ac ysgogi trawsnewid digidol ym maes iechyd. Dylai hyn gynnwys:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd i'w hunan bod penderfyniadau a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyrrff iechyd eraill yng Nghymru yn ymwneud â blaenoriaethu cyllid cyfalaf yn mynd law yn llaw â blaenoriaethau trawsnewid Gweinidogion.
- Sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda chyrrff iechyd ac yn eu hannog i ddyrannu cyllid digonol ac adnoddau eraill i gyflawni trawsnewid digidol cynaliadwy.

02920 500 500

igdc.gig.cymru | www.nhs.uk

Tudalen 56 o 56



Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a chyrrff Iechyd eraill yng Nghymru i gytuno ar flaenoriaethu cyllid cyfalaf i ysgogi trawsnewid. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar elfen cyllid cyfalaf y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol ac ar drawsnewid digidol. Y cyfalaf dewisol sydd wedi'i gynnwys yn nyraniad cyllideb graidd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw £2.6 miliwn ac mae wedi'i ddyrannu'n llawn i gefnogi gweithgarwch craidd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, amnewid ac adnewyddu seilwaith digidol, canolfannau data ac ystadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Yn y flwyddyn gyfredol, mae cyllid cyfalaf y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a ddyrannwyd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel a ganlyn:

Digital Priority Investment	
Digital Services for Patients & Public	980
Digital Medicines Transformation Portfolio	59
RISP	2,136
LINC	2,047
Digital Maternity	240
Digital Intensive Care Unit	4,707
WPAS	264
Total Digital Priority Investment	10,433

Mae cyd-drafodaeth a dull gweithredu ar gyfer trawsnewid digidol cynaliadwy yn dystiolaeth o ymgysylltiad agos Iechyd a Gofal Digidol Cymru â Llywodraeth Cymru a chyrrff Iechyd. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau gonest ynghylch ariannu a dyrannu adnoddau, yng nghyd-destun pwysau ehangach a blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu am gyllid. Mae trefniadau rheolaidd yn cynnwys cyfarfodydd misol grwpiau cymheiriaid arweinyddiaeth, megis grwpiau Cyfarwyddwyr Digidol, Cyfarwyddwyr Cyllid, a Chyfarwyddwyr Cynllunio. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn cynnal cyfarfod rhwng swyddogion gweithredol ('Exec to Exec') o leiaf unwaith y flwyddyn gyda phob sefydliad arall yn GIG Cymru i drafod ac adolygu trawsnewid digidol a chysoni cynlluniau. Mae'r gwaith hwn wedi'i nodi mewn strategaeth a chynllun rhanddeiliaid (Gweler Argymhelliad 15), a chaiff ei adrodd yn flynyddol i gyfarfodydd Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig cyhoeddus. Er bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dadlau'n gryf dros fwy o fuddsoddiad ac adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer materion digidol, rhaid i bob sefydliad gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ei hun ac ystyried ei flaenoriaethau ei hun.

Argymhelliad 14.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu arfarniad gonest o effaith argaeledd cyfyngedig cyllid cyfalaf ar gyflawni trawsnewid digidol mewn gwasanaethau

02920 500 500



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol Y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

iechyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw brosiectau neu raglenni sydd wedi cael eu gohirio, neu sy'n debygol o gael eu gohirio, oherwydd diffyg cyllid cyfalaf, asesiad o oblygiadau oedi o'r fath, a pha ddulliau amgen sy'n cael eu hystyried i ariannu/cefnogi twf ym maes digidol.

Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn flaenorol: *Cyflwynodd y gostyngiad sylweddol i ddyraniadau trwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol, (gostyngiad o £25miliwn o gyfalaf i £10miliwn) a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23, rai heriau. Gan weithio gyda Chyfarwyddwyr Grŵp Cymheiriaid Digidol GIG Cymru, rhoddodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru gefnogaeth i Dîm Digidol Llywodraeth Cymru gyrraedd sefyllfa ddichonadwy. Serch hynny, mae'n anochel bydd llai o fuddsoddiad yn effeithio ar yr uchelgais i gynyddu maint y trawsnewid digidol a'i ddwyn ymlaen.*

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn wynebu nifer o bwysau ariannol gan gynnwys chwyddiant digidol (cynnydd cyffredinol o dros 20% yng nghostau caledwedd a gwasanaethau ers 2021) yn ogystal â thwf o safbwynt storio data a nifer y defnyddwyr, a newid o gyllid cyfalaf i gyllid yn seiliedig ar refeniw, sydd wedi'i lywio gan fabwysiadu'r cwmwl. Mae diffyg mecanwaith ar gyfer ariannu twf yn her sy'n codi dro ar ôl tro – mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru wneud y gorau o gyflymder, perfformiad a gwerth gwasanaethau digidol o fewn amgylchedd cwmwl. Model cyllido sefydliadol mwy effeithiol ac effeithlon (codi tâl/llifoedd) sy'n gofyn am dull system gyfan i liniaru'r her ariannu barhaus ac ysgogi trawsnewid digidol ym maes iechyd a gofal yng Nghymru. Mae gwaith i archwilio modelau ariannu mwy cynaliadwy yn cael ei ddatblygu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mewn cydweithrediad â Fforwm y Cyfarwyddwyr Cyllid, Grŵp Cymheiriaid y Cyfarwyddwyr Digidol, yr Uned Cyflawni Ariannol a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfyngiadau ariannol sylweddol ar draws GIG Cymru yn ystod 2023/24 wedi ei gwneud yn amgylchedd heriol i fwrw ymlaen â model ariannu cynaliadwy, a chytuno arno, er bod gwaith yn mynd rhagddo. Byddai angen i unrhyw fuddsoddiad ychwanegol gynnal gwasanaethau digidol a hefyd, ar yr un pryd, ddatblygu gwasanaethau newydd a seilwaith a dull gweithredu newydd.

Mae trawsnewid digidol yn GIG Cymru yn gofyn bod nifer fawr o ddefnyddwyr terfynol yn mabwysiadu'r sylfeini caledwedd technegol ymatebol a diogel a hefyd fabwysiadu gallu, systemau a data digidol. Mae asesiad aeddfedrwydd rhyngwladol diweddar o dirwedd ddigidol bresennol GIG Cymru yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol o'r seilwaith i alluogi a chefnogi trawsnewid. Rhagwelir bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf ochr yn ochr â'r her refeniw. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am ddarparu systemau cenedlaethol ond mae sefydliadau'n gyfrifol ar lefel leol am sicrhau bod offer a seilwaith priodol yn eu lle.

O ran effaith cyllid cyfalaf cyfyngedig, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi canfod bod adnoddau yn gyfyngiad allweddol yn hytrach na dyraniadau cyllideb. Gan bydd angen yr un

02920 500 500

igdc.gig.cymru | www.nhs.uk

Tudalen 58 o 58



setiau sgiliau ac arbenigwyr pwnc ar gyfer nifer o fentrau buddsoddi, bydd hyn yn effeithio ar gyflymder, dilyniant a llinellau amser gweithredu. Hyd yma mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi pennu dilyniant gwariant cyfalaf trawsnewid digidol i fynd law yn llaw ag argaeledd adnoddau yn hytrach na chronfeydd cyfalaf.

Yr hyn sy'n hanfodol ar gyfer trawsnewid digidol yw meithrin y gallu digidol a'r lefelau adnoddau ledled Cymru, gan symud i dechnoleg sy'n seiliedig ar gwmwl a rhoi pwyslais ar safonau agored i gefnogi rhyngweithrededd systemau effeithlon ac effeithiol. Mae'r dull amgen o ddarparu tirwedd ddigidol fwy cynaliadwy yn ariannol gyda rhyngwyneb defnyddiwr terfynol cliriach yn [ddull sy'n seiliedig ar gynnyrch](#). O'i ddefnyddio ym maes bancio, manwerthu a sectorau eraill, mae hyn yn galluogi darparu a datblygu gwasanaethau digidol mewn ffordd fwy hyblyg a fesul cam sy'n cysylltu defnydd a boddhad system, gan sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n symud o ddull gweithredu rhaglen draddodiadol sy'n seiliedig ar brosiectau i ddull oes cyfan mwy cyson. Mae'n adlewyrchu'r newid yn y dirwedd caffael ddigidol o drwydded barhaus i drwydded sy'n fwy seiliedig ar danysgrifiadau gan arwain at newidiadau yn y model ariannol sydd ei angen i'w cefnogi.

Gyda'i gilydd mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd o drawsnewid y ffordd y mae trawsnewidiadau digidol yn cael eu cynllunio a'u darparu a fyddai'n gofyn am ddull mwy rheolaidd o ddefnyddio cynnyrch yn seiliedig ar refeniw.

CYDWEITHIO

Argymhelliad 15.

Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ymgysylltu â'i sefydliadau partner i werthuso ei ddulliau cydweithredu presennol, a nodi meysydd i'w gwella a chyfleoedd i gryfhau perthnasoedd. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu sut bydd yn cynnal y gwerthusiad hwn. Yna, bob chwe mis, dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar sut mae'n cydweithio â'i bartneriaid a'r hyn y mae cydweithredu o'r fath wedi'i gyflawni.

Yn ei flwyddyn gyntaf cyhoeddodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru [Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid](#). Cafodd y [Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid](#) ei ddiwygio a'i gyflwyno i'r Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Mai 2023. Mae'r dogfennau hyn yn nodi ymagwedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru at gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella a pherthnasoedd cryfach.

Mae Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig yn derbyn diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y cynllun trwy ei Gyfarfodydd Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig cyhoeddus, ac mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys adroddiad a sylwebaeth sy'n gwerthuso gweithgaredd ymgysylltu a buddion.

02920 500 500



Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn parhau i ddysgu a mireinio ei dull gweithredu yn seiliedig ar adborth ac asesiad yn erbyn y cynllun. Bydd canlyniadau'r dull gwerthuso diwygiedig hwn yn parhau i gael eu hadrodd trwy Gyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Yn y dyfodol, bydd adroddiadau cyhoeddus Cyfarfodydd Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 16.

Rydym yn dymuno sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd Digidol ar gael yn briodol i gleifion yng Nghymru pan fyddant yn derbyn gwasanaethau GIG yn Lloegr. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ystyried ffyrdd y gellir cysoni a chysylltu gwasanaethau iechyd digidol yng Nghymru a Lloegr yn well.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn nodi bod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru ond mae ganddo rai sylwadau i'w nodi.

Integreiddio technegol

Mae integreiddio'r systemau digidol lluosog a'r ffynonellau data a ddefnyddir gan yr ystod o ddarparwyr iechyd a gofal yng Nghymru a Lloegr yn dibynnu ar argaeledd adnoddau technegol a chyllideb i roi penderfyniadau polisi ar waith.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru eisoes yn rhan o waith gwella llifoedd trawsffiniol o wybodaeth ddigidol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio gyda sefydliadau ar y ffin, megis Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr i rannu cofnodion digidol cleifion o Gymru a gafodd eu trin yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.
- Gweithio gyda GIG Lloegr, trwy grŵp pedair gwlad, sy'n cynnwys gweithio tuag at safonau data cyffredin.
- Trwy waith pellach a buddsoddiad yn y rhaglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd, gallai cleifion gael mynediad at eu data iechyd a gofal er mwyn ei rannu â phwy y dymunant.

Ystyriaethau ehangach

Mae argaeledd data o ansawdd da yn hanfodol nid yn unig ar gyfer darparu gofal a thriniaeth i unigolion ond ar gyfer defnyddiau eilaidd fel cynllunio, gwella ansawdd ac ymchwil. Bydd angen i drefniadau sy'n caniatáu i ddata lifo'n effeithiol yng Nghymru yn y lle cyntaf fod wrth wraidd unrhyw uchelgeisiau i ehangu mynediad at wasanaethau trawsffiniol. Byddai'n fuddiol cael dull strategol o alluogi llif data yn y system iechyd a gofal yng Nghymru, a rhwng rhanddeiliaid trawsffiniol, i fynd i'r afael â'r rhwystrau o ran rhannu data mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru a rhanddeiliaid eraill yn eu hwynebu.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth
Gyhoeddus
seneddCCGG@senedd.cymru

17 Awst 2023

Annwyl Russell a Mark,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf a'r adroddiad cysylltiedig. Mae defnyddio gwasanaethau digidol ledled Cymru yn allweddol i sicrhau bod pob gwasanaeth iechyd yn gweithredu'n effeithiol, felly rwy'n croesawu adroddiad y ddau bwyllgor ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn dilyn blwyddyn gyntaf yr Awdurdod Iechyd Arbennig hwn. Yn benodol, mae'n dda gweld bod argymhellion y ddau bwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, a'r rhai y gwn eu bod ar waith gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Hoffwn hefyd dynnu sylw'r ddau bwyllgor at fy Natganiad Ysgrifenedig¹ ar 27 Gorffennaf 2023, pan lansiais fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn rhoi cyfeiriad trawsnewid digidol a data i helpu pobl yng Nghymru i fyw bywydau hapusach, iachach a hirach trwy wasanaethau digidol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr ac sy'n seiliedig ar sgiliau, partneriaethau, data a phlatformau digidol gwell. Fel ein partner darpariaeth ddigidol dibynadwy a strategol, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cyfraniad hanfodol at helpu Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i wireddu'r dyheadau a nodir yn y Strategaeth. Trwy weithredu'r argymhellion hyn yn llwyddiannus, bydd modd cryfhau'r swyddogaeth hon a chryfhau atebolrwydd i bawb.

Cyflwynir fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad, fel y bo'n briodol, yn Atodiad A.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

¹ <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-fersiwn-ddiwygiedig-or-strategaeth-digidol-data-ar-gyfer-iechyd-gofal>

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad ar y cyd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, o'r enw "Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru".

Argymhelliad 1

Argymhelliad y Pwyllgorau:

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau wrth bennu blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyflawni prosiectau mawr. Dylai hyn gynnwys:

- Sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau ei hun bod blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a gofal yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.*
- Sut y gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan gynnwys pryd a chan bwy.*
- Sut mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r tîm gweithredol yn monitro cynnydd ar brosiectau mawr, gan gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.*
- Pa rôl, os o gwbl, fydd gan Weithrediaeth GIG Cymru.*

Ymateb:

- Chael ei gyhoeddi gan gytuno ar ffordd ymlaen.

Derbyn

Ymateb:

- Adolygwyd dull y farchnad gymysg o reoli adeiladu wrth ystyried yr ymatebion i adroddiad Hackitt.

- Mae cyd-destun hanesyddol system reoleiddio gyffredin ledled Cymru a Lloegr a'r manteision y mae hyn yn eu rhoi i'r diwydiant o ran cyfleoedd masnachol yn wahanol iawn i'r model cyflenwi yn yr Alban.
- Mae'r model sy'n cael ei fabwysiadu yn cyflwyno trefn reoleiddio newydd ar gyfer RBI ac RBCAs a fydd yn sicrhau tegwch ar draws y diwydiant. Bydd arolygwyr adeiladu'r sector cyhoeddus a phreifat a chyrrff rheoli adeiladu yn ddarostyngedig i'r un lefel o reoleiddio a goruchwylio.
- Gwnaethom y penderfyniad i gyflwyno rheoliadau a fyddai'n caniatáu i Awdurdodau Lleol yn unig allu ymgymryd â'r Swyddogaeth Rheoli Adeiladu ar gyfer adeiladau a ystyrir yn Adeiladau Risg Uwch. Mae'r dull hwn yn unol ag argymhellion Hackitt i gael gwared ar y gallu i ddatblygwyr ddewis eu harolygwyr Rheoli Adeiladu eu hunain.
- Ar hyn o bryd mae Lloegr yn cynnal ymchwiliad a dadansoddiad cynhwysfawr o risgiau adeiladau o bob math ac wedi cytuno i rannu'r canfyddiadau â ni pan fydd wedi'i gwblhau. Bydd yr ymchwil hon yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r risgiau a byddwn yn gallu ystyried hyn yng nghyd-destun Cymru. Ar y pwynt hwn, byddwn yn cynnal adolygiad pellach o briodoldeb ac effeithiolrwydd ein dull gweithredu marchnad gymysg o ran Rheoli Adeiladu.

Ebrill 25

Argymhelliad 4: I Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwaith o oruchwylio a rheoli'r sector rheoli adeiladu er mwyn sicrhau bod system sicrwydd gadarn ar waith ar gyfer rheoli adeiladau a diogelwch drwy:

- Creu fframwaith perfformiad cenedlaethol gyda safonau gwasanaeth clir i hyrwyddo cysondeb gwasanaeth. Dylai hyn hefyd gynnwys mesurau canlyniadau i fonitro perfformiad a fframwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer craffu.
- Datblygu cynllun gweithlu diogelwch adeiladu cenedlaethol i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sector. Dylai hyn gynnwys casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd, yn ogystal â sicrhau blaenoriaethau, megis:
 - Mwy o ffocws ar hyfforddeion i liniaru risgiau olyniaeth.
 - Sefydlu rolau swyddi cyson, cenedlaethol yn cyfateb i lefelau cymwysedd.
 - Cynyddu amrywiaeth y sector i sicrhau ei fod yn adlewyrchu Cymru fodern.

- Dylid ystyried cyllid penodol hefyd i alluogi syrfewyr i gael a chynnal cymhwysedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio gyda'r sector addysg bellach y ffordd orau o ddarparu hyfforddiant rheoli adeiladu yng Nghymru i gefnogi cynllunio olyniaeth, datblygu sgiliau a chymhwysedd.

Derbyn (yn rhannol mewn cysylltiad ag eraill)

Ymateb:

Fel rhan o gynllun Cam 1 bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno trefn gadarn o oruchwylio a rheoli'r sector rheoli adeiladu.

1. Bydd fframwaith perfformiad cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddrafft ym mis Medi 22. - **Ionawr 24**

2. Bydd casglu data ar y gweithlu ar draws Awdurdodau Lleol yn rhan o oruchwyliaeth Awdurdodau Lleol. Nid yw hyn wedi'i ddatblygu eto ond bydd yn ei le yn unol â chyflwyno cam 2 y cynllun. - **Ebrill 25**


3. Mae LIC yn ymwybodol o'r risgiau olyniaeth a'r diffyg amrywiaeth yn y sector. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLILC i ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gwasanaethau Rheoli Adeiladu awdurdodau lleol'. - **Parhaus**

4. Mae timau prentisiaeth LIC wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i roi cymwysterau priodol ar waith ar gyfer y proffesiwn rheoli adeiladu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr Addysg i ddatblygu hyn. Er bod angen mwy o waith gan y diwydiant i ddenu pobl. - **Parhaus**

5. Bydd y fframwaith newydd sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer cofrestru Arolygwyr Adeiladu yn sicrhau y bydd pob rôl yn cyd-fynd yn genedlaethol â'r fframwaith cymhwysedd ar gyfer cofrestru. - **Ionawr 24**

6. Mae angen ystyried cyllid penodol ymhellach yn unol â'r pwyntiau eraill a godwyd ar ddenu gweithwyr i'r diwydiant a'r modd y gellir darparu Rheoli Adeiladu yn fwyaf effeithiol drwy awdurdodau lleol yng Nghymru. - **Ebrill 25**

Yn gywir



Neil Hemington

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio | Planning Directorate
Llywodraeth Cymru | Welsh Government

Neil Hemington

Cc:

- Blwch post y Cabinet
- Cadeirydd, PAPAC
- Blwch post CGU

Eitem 2.12

Dr Andrew Goodall
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

05 Medi 2023

Annwyl Mr Isherwood

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21

Diolch ichi am eich llythyr pellach, dyddiedig 18 Gorffennaf, ynghylch Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21. Byddaf yn ymateb i'r ymholiadau yn y drefn y cawsant eu codi.

Argymhelliad 1 - mae'r Pwyllgor yn cydnabod gwerth posibl secondiadau, ond mae'n parhau i bryderu am benodiadau tymor hwy ar y sail honno, oherwydd materion yn ymwneud â thelerau ac amodau, yn ogystal â thryloywder y trefniadau hynny. Rydym yn nodi bod polisi Llywodraeth Cymru yn datgan, hyd yn oed gydag estyniad, na ddylai secondiadau bara mwy na phedair blynedd. Mae'n ymddangos bod telerau eich penodiad i Lywodraeth Cymru, fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru yn wreiddiol, a bellach fel Ysgrifennydd Parhaol, yn mynd yn groes i'r polisi hwn.

Yn eich ymateb, rydych chi'n dweud y bydd eich tîm Adnoddau Dynol yn adolygu a gwella polisi Secondiad a Benthyciadau Llywodraeth Cymru a'i fod yn cefnogi prosesau Llywodraeth Cymru yn dilyn gwaith archwilio mewnol. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a yw hyn yn gysylltiedig â'r dystiolaeth a roesoch i'r Pwyllgor ym mis Mawrth ynghylch Archwilio Mewnol yn cyhoeddi tri adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn ystod 2021-22, gydag un ohonynt yn ymwneud â



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 6935
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

secondiadau a threfniadau ehangach. Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r adolygiad.

Er fy mod yn nodi pryder parhaus y Pwyllgor am delerau fy mhenodiad, nid oes fawr iawn y gallaf ei ychwanegu at fy ymateb blaenorol lle'r wyf yn nodi ein polisi ein hunain, a dull Swyddfa'r Cabinet o ymdrin â secondiadau. Mae'r ddwy ffordd yn darparu ar gyfer eithriadau.

Mae polisiâu AD yn darparu fframwaith sy'n darparu ar gyfer y rhan fwyaf o senarios, ond ni allant byth gwmpasu pob amgylchiad gwahanol. Mae llawer o secondiadau yn cael eu rhoi ar waith drwy benodiad uniongyrchol, i ddod ag arbenigedd penodol i'r sefydliad ond mae'n golygu na fu hysbyseb agored o reidrwydd ar gyfer y cyfle hwnnw. Dyna lle mae'r deiliadaeth pedair blynedd yn dod yn bwysig ac yn sicrhau nad ydym yn cadw pobl am gyfnod rhy hir, heb gystadleuaeth. Hyd yn oed wedyn, mae lle i ymestyn os gellir cyflwyno achos cyfiawn i Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil i wneud hynny. Mae mwy o hyblygrwydd i ymestyn secondiadau sydd wedi'u rhoi ar waith drwy broses deg, agored ac ar sail teilyngdod (fel fy secondiad innau) a dyma'r hyblygrwydd a gymhwyswyd i'r trefniadau secondiad sydd ar waith ar gyfer fy rôl DG. Cymeradwyir yr holl secondiadau ac estyniadau yn unol ag egwyddorion y Comisiwn a gofynion Swyddfa'r Cabinet sydd ar waith.

Ni allaf ond ceisio sicrhau PAPAC ymhellach fod yr holl gymeradwyaethau angenrheidiol wedi'u hennill a bod y gofynion statudol ar gyfer penodi ar y sail hon wedi'u dilyn ar gyfer pob un o'r uwch benodiadau o dan sylw, gan gynnwys fy mhenodiad innau i Ysgrifennydd Parhaol. Rwyf yn ymwybodol eich bod yn gofyn imi am broses sy'n ymwneud â'm penodiad na wneuthum ei goruchwylio ac a gafodd ei rheoli gan Swyddfa'r Cabinet ar lefel Llywodraeth y DU, gyda chyfranogiad personol Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil. Cafodd fy mhenodiad a'r cynnig o secondiad imi wedyn eu clirio ar y lefelau uchaf. Cefais fy mhenodi ar ôl proses gystadleuol o dan arweiniad Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil sy'n cael ei chymhwyso'n gyson i recriwtio i rolau uwch ym mhob adran o'r Llywodraeth; ac nid yw'n briodol imi esbonio'r broses yn bersonol. Am y rheswm hwn, rwyf yn awgrymu eich bod yn mynd ar drywydd unrhyw faterion pellach yn uniongyrchol gyda Swyddfa'r Cabinet os oes gennych gwestiynau pellach.

Gallaf gadarnhau bod yr adolygiad o'n polisi secondiadau a benthyciadau yn gysylltiedig â gwaith a wnaed gan gydweithwyr Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd cyfyngedig a ganfuwyd fel rhan o'r gwaith hwnnw. Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol a'r Argymhellion wedi bod yn destun monitro mewnol parhaus i olrhain cynnydd yn erbyn terfynau amser cyflawni - gyda'r adroddiad diwethaf wedi'i lunio ym mis Mehefin 2023.



**BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Bydd yr adroddiad cynnydd nesaf yn cael ei gwblhau ddiwedd mis Medi ac yn cael ei adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredu a bydd yn adlewyrchu statws yr holl Argymhellion sydd ar gau ac yn cynnwys unrhyw is-setiau o gamau gweithredu sydd â therfyn amser cyflawni o fis Awst 2023 neu'r tu hwnt.

Argymhelliad 4 - mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am delerau penodiad Judith Paget. Nodwn mai 19 Mai yw dyddiad eich ymateb, gyda'r cyhoeddiad am benodiad Judith yn dilyn ar 1 Mehefin. Hysbyswyd y Pwyllgor am y penodiad mewn llythyr dyddiedig 6 Mehefin, na chafodd ei anfon at y Pwyllgor tan 12 Mehefin. O ystyried ein diddordeb yn y mater hwn, rydym yn siomedig y cawsom ein hysbysu am y penodiad 12 diwrnod ar ôl y cyhoeddiad.

Mewn perthynas â'ch ymateb i argymhelliad 4, dywedoch na fyddai'n briodol gwneud sylw ar ymarfer recriwtio byw ar wahân i amlinellu bod y broses yn y cyfnod asesu ar hyn o bryd. Credwn y dylai'r Pwyllgor, o leiaf, fod wedi cael y manylion sylfaenol ynghylch pryd y cafodd y swydd ei hysbysebu, y dyddiad cau a'r dyddiad cyfweld, y disgrifiad swydd, a'r band cyflog. A allwch chi gadarnhau ar ba fand cyflog y penodwyd y Cyfarwyddwr Cyffredinol?

Nodwn y cafodd y broses recriwtio ei chadeirio gan Gomisiynydd Gwasanaeth Sifil, ac iddi ddilyn y broses recriwtio allanol a bennwyd gan Swyddfa Cabinet y DU, fel sy'n digwydd yn achos pob penodiad lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol ar draws Gwasanaeth Sifil y DU. Mae gennym bryderon bod hon yn broses recriwtio sy'n gweddu i angen gwasanaeth sifil, gydag arweinyddiaeth y GIG yn fater eilaidd.

A allech chi roi manylion am yr hysbyseb swydd, a sut a ble y cafodd ei hysbysebu, i leddfu'r pryderon hyn? A allwch chi hefyd egluro'r telerau penodi, gan gynnwys a yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn parhau ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan?

Yn unol â'ch cais, rwyf wedi atodi'r hysbyseb a'r pecyn ymgeisio ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru.

[Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru - Llywodraeth Cymru\(tal.net\)](#)

Agorodd y cyfnod ymgeisio ar 15 Chwefror 2023 a daeth i ben ar 12 Mawrth gyda band cyflog wedi'i hysbysebu o tua £180,000 (mae gan baneli ddisgresiwn gyda chymeradwyaeth y Comisiynydd i benodi ymgeiswyr allanol hyd at ystod o 20% o'r cyflog a hysbysebwyd). Mae manylion y broses ddethol drylwyr a'r dyddiadau cysylltiedig ar gyfer pob cam i'w gweld yn yr hysbyseb ac maent i'w gweld hefyd yn adran 7 o'r Pecyn Ymgeisio.



**BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Cafodd y swydd ei hysbysebu ar borth recriwtio Llywodraeth Cymru a bwrdd swyddi'r Gwasanaeth Sifil; gwnaethom hefyd gyflogi cwmni gweithredol gydag arbenigedd yn y GIG a recriwtio ym maes gofal iechyd i weithredu ar ein rhan ac i gynnal chwiliad rhyngwladol.

O ran eich sylwadau bod rôl arweinyddiaeth y GIG yn ystyriaeth eilaidd, fe welwch o'r pecyn ymgeiswyr nad oedd hyn yn wir, a bod cyfrifoldebau rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru ac arweinyddiaeth a goruchwyliaeth GIG Cymru wedi'u nodi'n glir iawn. Penodi ymgeisydd â'r gallu a'r profiad arweinyddiaeth i reoli cyfrifoldebau deulol y rôl oedd canolbwynt yr asesiad. Roedd hyn yn rhan lawn iawn o'r asesiad, gan gynnwys aelodau'r panel â phrofiad o'r GIG. Cafodd y Panel ei gadeirio'n bersonol gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil i arwain y broses a'r canlyniad. Gan nodi barn aelodau ar gyd-destun y GIG, hoffwn bwysleisio bod rhaid i'r broses gael ei harwain gan wasanaethau sifil gan mai swydd barhaol yn y gwasanaeth sifil ydyw.

Fel y nodwch, cyhoeddwyd penodiad Judith Paget i'r rôl yn gyhoeddus ar 1 Mehefin. Rydym wedi ymrwmo i hysbysu PAPAC o'r trefniadau cyflogaeth ar gyfer uwch swyddogion (DG ac uwch) o fewn amserlen resymol, pan fydd y broses ddyledus ar gyfer penodiad yn cael ei chwblhau a'i chyhoeddi, gan gydbwysu'r hawl i gyfrinachedd ar gyfer yr unigolyn ac yn unol ag agweddau ar drefniadau penodi y mae PAPAC wedi nodi diddordeb ynddynt yn flaenorol. Rhoddodd y llythyr oddi wrth ein Cyfarwyddwr AD fanylion pellach am y broses a'r wybodaeth am fwriad Mrs Paget i ymadael â'i chyflogaeth yn y GIG nad oedd, yn gwbl briodol, wedi'i wneud yn gyhoeddus ac fe wnaethom gyflawni ein hymrwymiad i chi yn llawn yn y mater hwn. Ar hyn o bryd mae Judith yn dal ar secondiad gyda ni tra bo gwaith ar delerau ac amodau terfynol ei gwasanaeth yn dal i fynd rhagddo, ac nes iddi gwblhau ei chyfnod rhybudd ffurfiol gyda'i chyn-gyflogwr, y GIG, i ymuno â'r gwasanaeth sifil. Er y byddwn mor dryloyw ag y gallwn fod ynghylch y manylion terfynol ar ôl i'r rhain gael eu cadarnhau, ni allwn ddatgelu'r manylion hynny i chi ond pan fydd yn briodol i wneud hynny.

Argymhelliad 7 – mae'r Pwyllgor yn nodi eich ymateb a'ch ymrwymiad i ddod i gytundeb gyda'r Comisiwn ynghylch cwrpas y term "newidiadau sylweddol", ar gyfer datgeliadau cyfrifon neu hysbysu'r Pwyllgor am newidiadau i drefniadau gwaith neu dâl. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd Llywodraeth Cymru, wrth ymateb i'r llythyr hwn, i nodi ei hawgrym ar gyfer beth fyddai hyn yn ei gynnwys

O ran datgeliadau 'newidiadau sylweddol' ar gyfer datgeliadau'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol yn y cyfrifon blynyddol, rydym yn awgrymu y byddai hyn yn cynnwys:



**BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

- Esboniad o'r buddion pensiwn a ddatgelir yn y Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ariannol Sengl ac os oes ffigurau negyddol / anarferol, esboniad o'r ffactorau sy'n achosi symudiadau o'r fath.
- Ar gyfer Uwch Swyddogion ar secondiad, dyddiad dechrau a diwedd tymhorau'r secondiad, eglurhad o delerau ac amodau cyflogi'r secondai, ac os yw'r secondiad yn cael ei ymestyn manylion o ddyddiad dechrau a gorffen yr estyniad.
- Dyddiadau dechrau ar gyfer penodiadau newydd i rolau Uwch Swyddogion ac a yw penodiad yn barhaol neu'n Drefniant Dyrchafiad Dros Dro.
- Dyddiadau gorffen ar gyfer terfynu rolau Uwch Swyddogion, ac a yw'r terfynu i'w briodoli i secondiad, diwedd contract cyfnod penodol, ymddeol, ymddiswyddo, ailstrwythuro sefydliadol etc.
- Manylion dyfarniadau cyflog sy'n gymwys i Uwch Swyddogion am y flwyddyn ariannol yr adroddir arni.
- Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer unrhyw staff sy'n ymgymryd â swydd rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn neu sy'n ymgymryd â rôl yn rhan-amser.
- Datganiad bod swyddog yn rhan-amser a phryd y dechreuodd y gwaith rhan-amser os yw o fewn y flwyddyn.
- Datgelu a yw swyddog wedi ymddeol yn rhannol, a chadarnhad a yw ei gyflog a'i oriau gwaith wedi cael eu lleihau, a beth fyddai eu cyflog cyfwerth ag amser llawn.

O ran rhoi gwybod i'r Pwyllgor am newidiadau sylweddol i drefniadau gwaith neu gydnabyddiaeth ariannol, rydym yn awgrymu y byddai hyn yn cynnwys diweddariad chwarterol i PAPAC a byddai'n cynnwys:

- Y Tîm Adnoddau Dynol i hysbysu PAPAC am drefniadau secondiad yn y dyfodol ar gyfer unrhyw rôl ym mand cyflog SCS 2 (Cyfarwyddwyr ac uwch) pan fydd y secondiad yn dechrau a lle bo'n berthnasol, ar y pwynt y gwneir unrhyw ddiwygiadau i'r telerau.



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

- Lle bo'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a Staff yn ei Gyfrifon a/neu yn ei Ddatganiad am Bolisi Tâl yn datgelu gwybodaeth am aelodau unigol o staff sydd ar secondiad, byddwn yn adrodd am gyfnod y swydd ar gyfer y trefniadau yn y dogfennau cyhoeddiedig hynny.
- Byddwn yn rhoi gwybod i PAPAC am unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio'r Ysgrifennydd Parhaol ar yr adeg y gwneir penderfyniad.
- Byddwn yn rhoi gwybod i PAPAC am unrhyw newidiadau a wneir i drefniadau gwaith Cyfarwyddwyr Cyffredinol ar yr adeg y gwneir penderfyniad

Argymhelliad 11 – Rydym yn nodi eich bod yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Er ein bod yn cydnabod eich esboniad, roedd argymhelliad y Pwyllgor yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o wybodaeth yn ei Chyfrifon 2021-22 ynghylch ei hamcangyfrif o dwyll a gwall nag y gwnaeth yn ei Chyfrifon 2020-21, yn hytrach na gofyn am ei gynnwys.

Roedd Cyfrifon 2020-21 Llywodraeth Cymru yn cynnwys ei hamcangyfrif o dwyll a gwall, heb naratif cysylltiedig i esbonio'r dystiolaeth yr oedd yn seiliedig arni a'i chyfrifiadau. Darparwyd y wybodaeth hon ym Memorandwm Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Pwyllgor ar gymorth busnes COVID-19 yn 2020-21 (Hydref 2022).

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi darparu sylwebaeth am ei hamcangyfrif o dwyll a gwall yn ei Chyfrifon 2021-22. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn yn cyflwyno'r amcangyfrif o dwyll a gwall mewn ffordd y gellir ei chymharu â'r sail a fabwysiadwyd ar gyfer 2020-21, neu a ddiweddarwyd ohoni. Yn ogystal, mae'r datganiad yn eich Cyfrifon 2021-22, sef "nid oes unrhyw faterion wedi'u nodi" yn ffurflenni awdurdod lleol ar gyfer 2020-21, yn ymddangos yn groes i'r dystiolaeth ategol ar gyfer ystod amcangyfrif 2020-21, fel y nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol

Byddem yn croesawu esboniad pellach a diweddariad ynghylch amcangyfrif Llywodraeth Cymru o'r lefel gyffredinol o dwyll a gwall ar draws ei chymorth busnes COVID-19, p'un ai ar gyfer cyllid a weinyddwyd yn 2021-22 yn unig a/neu'r sefyllfa gyfunol sy'n cwmpasu'r holl gynlluniau. Dylai hyn ganiatáu cymhariaeth â'r wybodaeth i gefnogi'r amcangyfrif o dwyll a gwall ar gyfer 2020-21.

Rydym hefyd yn pryderu nad yw geiriad yr argymhelliad yn eich llythyr ymateb yn cyd-fynd â'r geiriad sydd yn yr adroddiad, a allai arwain at ddryswch. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod geiriad llawn argymhellion yn y dyfodol yn cael



**BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

eu cynnwys mewn ymatebion yn y dyfodol os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu dyfynnu.

I egluro ymhellach, roedd y lefel amcangyfrifedig o dwyll a gwallau a gynhwysir yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21 a 2021-22 yn amcangyfrif yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd gennym ar y pryd.

Yn 2020-21 roedd yr achosion o dwyll yr adroddwyd arnynt yn llai na 0.08%. Yn 2021-22 roedd y gyfradd wallau / twyll yn dal yn is na 1%.

Mae hyn yn cymharu â chyfradd twyll a gwallau Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, a amcangyfrifwyd yn ei Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 yn 8.9% (yn 2021-22 roedd y gyfradd hon yn 8.4%). Yn yr un modd, roedd y gyfradd twyll a gwallau a adroddwyd gan Lywodraeth yr Alban rhwng 1-2% yn 2020-21 a 2021-22. Felly, nododd Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban gyfraddau twyll a gwallau uwch na rhai Llywodraeth Cymru.

2020-21

Cynlluniau a Gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol

Ar gyfer Cynlluniau a Gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol (ALLau) roedd ein gwaith monitro ar ôl cwblhau yn cynnwys dau ymarfer.

Roedd gofyniad i bob ALI gwblhau "Tystysgrif Archwilio, Datganiad Blynyddol o Wariant Grant" yn ystod 2020-21.

Roedd yr ALLau yn atebol os oeddent yn torri'r amodau hyn. Yn ogystal, mae gan swyddogion Adran 151 nifer o ddyletswyddau statudol gan gynnwys y gofyniad i sicrhau bod materion ariannol yr ALI yn cael eu gweinyddu'n briodol a'r angen i sicrhau cydymffurfiaid â'r holl ofynion statudol ar gyfer cyfrifyddu ac archwilio mewnol (gan gynnwys cofnodion ategol a phob system o wiriadau a rheolaeth fewnol). Mae hyn yn cyd-fynd â dull o weithio mewn partneriaeth a chyd-gyflawni/atebolrwydd o dan weithrediad arferol ag ALLau.

Felly cyflawnodd pob Awdurdod Lleol, fel ein hasiant, y gwaith monitro a oedd yn angenrheidiol yn ei farn ef er mwyn bodloni'r amodau yn y llythyr dyfarnu grant ac fe gwblhaodd y Dystysgrif Archwilio, a'r Datganiad Blynyddol o Wariant Grant i roi sicrwydd ar hyn yn ôl y gofyn. Cyfrifoldeb y swyddog Adran 151 yw dylunio'r system fonitro a rheoli.

Ar gyfer 2020-21, dychwelodd 19 allan o 22 awdurdod lleol y Dystysgrif Archwilio, Datganiad Blynyddol o Wariant Grant, ardystiad gan swyddog Adran 151 yr Awdurdod



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Lleol ynghylch sut yr oedd y cynllun wedi cael ei redeg a'i reoli. Ystyriodd adolygiad o'r Dystysgrif Archwilio, Datganiad Blynyddol o Wariant Grant gan swyddogion Llywodraeth Cymru'r cynnwys ac ni nodwyd unrhyw feysydd a oedd yn destun pryder na diffyg cydymffurfio. Roedd y ffurflenni a ddaeth i law i gyd yn nodi bod rheolaethau ar waith ar gyfer y cynlluniau yn 2020-2021.

Yn ogystal, gofynnwyd am ffurflenni gwallau/twyll ar wahân oddi wrth bob awdurdod lleol. Daeth 16 i law ac mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys isod, gan ddarparu'r gyfradd gwallau/twyll 0.08% a gynhwysir yng nghyfrifon 2020-21.

Cynlluniau a Gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol 2020-21: Cyfradd Twyll/Gwallau

Achosion o dwyll a hysbyswyd gan ALLau	142
Nifer yr ALLau a ymatebodd	16
Cyfanswm nifer yr ALLau	22
Grosio'r rhif twyll i fyny i'w allosod ar gyfer pob ALI	195
Cyfanswm y grantiau ALLau a roddwyd	246,127
Cyfradd Gwallau/Twyll	0.08%

Cynlluniau ERF a Gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru 2020-21: Cyfradd Twyll/Gwallau

Adeg cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, roedd pob PCM ar gyfer Cam 1 a 2 wedi'u hanfon ond nid oedd pob busnes wedi ateb ac roedd swyddogion yn mynd ar drywydd hyn.

Gwallau/Twyll a nodwyd	1
Monitro a wnaed (achosion)	24
Cyfradd Gwallau/Twyll amcangyfrifedig yn ôl achos	4.17%
Gwall/Twyll a nodwyd yn ôl gwerth	£60,000
Gwerth y cyllid a roddwyd	£775,086
Cyfradd Gwallau/Twyll	7.74%



Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Mae hyn yn rhoi amrediad gwallau/twyll cyffredinol o 0.08-7.74%

Amseru

Dylid nodi, oherwydd yr oedi wrth archwilio 2020-21, na chafodd y cyfrifon eu llofnodi tan fis Awst 2022. Roedd hyn yn ein galluogi i barhau i gasglu data oddi wrth yr Awdurdodau Lleol tan ddiwedd proses archwilio 2020-21. Llofnodwyd cyfrifon 2021-22 ym mis Rhagfyr 2022, felly ychydig iawn o dystiolaeth ychwanegol a gasglwyd ar gyfer 2021-22. Roeddem wedi cael gwybodaeth oddi wrth ddau Awdurdod Lleol. Roedd hyn yn golygu bod y data gwallau/twyll a gasglwyd ar gyfer cyfrifon 2021-22 yn debyg iawn i gyfrifon 2020-21 fel y dangosir isod.

2021-22

Grantiau Awdurdodau Lleol

Erbyn 2021-22 roeddem wedi cael pob un (22) o'r Tystysgrifau Archwilio, Datganiadau Blynyddol o Wariant Grant (Ardystiad gan Brif Swyddog Cyllid yr ALI) sy'n cwmpasu'r cyfan neu ran o'r arian grant a weinyddir gan yr ALLau ac ni nodwyd unrhyw faterion.

O'r 18 o 22 o ffurflenni twyll yr Awdurdodau Lleol 2021-22 a ddaeth i law, nodwyd chwe achos ychwanegol o dwyll:

Achosion o dwyll a hysbyswyd gan ALLau	6
Nifer yr ALLau a ymatebodd	18
Cyfanswm nifer yr ALLau	22
Grosio'r rhif twyll i fyny i'w allosod ar gyfer pob ALI	7
Cyfanswm y grantiau ALLau a roddwyd	13,062
Cyfradd Gwallau/Twyll	0.05%

Cynlluniau ERF a Gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru 2021-22: Cyfradd Twyll/Gwallau

Fel yr adroddwyd yng Nghyfrifon Cyfunol 2021-22, ym mis Rhagfyr 2022 nid oedd unrhyw achosion o dwyll wedi'u canfod drwy waith PCM.

Dull Gweithredu Llywodraeth Cymru



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Roedd y dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru yn sylweddol wahanol i ddull Llywodraeth y DU, a oedd â phoblogaeth llawer mwy o ddata i ddelio â hi. Felly roeddem yn dibynnu ar samplu ystadegol, dadansoddi tueddiadau a gwaith gan Wasanaeth Actiwari'r Llywodraeth. I'r gwrthwyneb yn Llywodraeth Cymru roeddem yn gallu defnyddio tystiolaeth sylfaenol a gafwyd yn uniongyrchol naill ai oddi wrth dderbynwyr grantiau yn achos ERF neu oddi wrth yr Awdurdodau Lleol (ALLau) yn achos y cynlluniau a gafodd eu cyflawni gan ALLau.

Canlyniadau drafft Monitro ar ôl Cwblhau 2022-23

Yn ystod 2022-23 cafwyd proses Monitro ar ôl Cwblhau gynhwysfawr a bydd y Datganiad o Lywodraethiant Blynyddol 2022-23 yn cynnwys llawer mwy o ddadansoddiad ar y canlyniadau hyd yn hyn, gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau adeiladol a wnaed gan y Pwyllgor hwn mewn sesiynau craffu blaenorol.

Rydym yn dal i bennu manylion terfynol y canlyniadau ar gyfer y cynlluniau a gyflawnwyd gan yr ALLau, ond y canlyniadau monitro ar ôl cwblhau ar gyfer cynlluniau a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru fel yr oeddent ym mis Ebrill 2023 oedd:

- **Camau 1 to 8 –Monitro yn seiliedig ar arolwg**

Cam ERF	Nifer yr arolygon a anfonwyd	Nifer yr arolygon a ddychwelwyd
Camau 1&2 Micro	9,094	3,029
Camau 1&2 BBaCh (o dan £30,000)	1,257	421
Cam 3 Micro	1,205	690
Cam 4 -7	3,866	1,248
Cam 8	2,484	0
Cyfanswm	17,906	5,388

- **Camau 1- 8 – Monitro ar ôl Cwblhau**

Cam ERF	Nifer yr achosion	Nifer yr achosion a gaewyd
Camau 1 & 2 BBaCh (dros £30,000)	1,270	585
Camau 1 & 2 heb fod yn BBaCh	52	51
Cam 3 BBaCh / heb fod	804	189



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

yn BBACh		
Camau 4 i 7 BBACh / heb fod yn BBACh	425	76
Camau 8 BBACh/ heb fod yn BBACh	40	0
Cyfanswm	2,371	901

- **Camau 1-8 Adenillion**

Adenillion – Wedi'u Cwblhau	Nifer yr Achosion	Gwerth yr Adenilliad
Cam 1 & 2	26	£1,641,384
Cam 3	15	£119,332
Cam 4 i 7	13	£216,743
Cam 8	0	£0
Cyfanswm	54	£1,977,459

Mae'r data hwn yn ymwneud â chronfeydd a ad-dalwyd gan y busnes oherwydd diffyg cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd neu fethiant i gyflawni'r allbynnau a ragwelwyd yn wreiddiol.

- **Camau 1- 8 – Diddymwyd**

Diddymwyd	Nifer yr Achosion	Gwerth y Diddymiad
Cam 1&2	4	£102,500
Cam 3	1	£15,310
Cam 4 i 7	0	£0
Cam 8	0	£0
Cyfanswm	5	£117,810

Mae'r data hwn yn ymwneud â swm y cyllid sydd wedi'i ddiddymu oherwydd methiant y busnes i ad-dalu arian a nodwyd fel dyled; bydd hyn hefyd yn cynnwys ansolfedd y busnes.

Ym mis Ebrill 2023, nid oes unrhyw achosion o dwyll wedi'u nodi ac felly nid oes unrhyw gronfeydd wedi'u diddymu o ganlyniad i dwyll.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys geiriad llawn yr holl argymhellion mewn ymatebion yn y dyfodol.



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o gymorth i'r pwyllgor wrth iddo ystyried cyfrifon 2020-21 a chynnal sesiynau tystiolaeth cysylltiedig.

In gywir,

Andrew Goodall

Dr Andrew Goodall
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon